

L L A I S

Gweinidog y Gymraeg yn agor Tŷ'r Gwrhyd

Cafodd Canolfan Gymraeg newydd Cwm Tawe a Nedd, Tŷ'r Gwrhyd, ei hagor yn swyddogol gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC, ar ddydd Iau, Gorffennaf 7fed.

Y llynedd dyfarnwyd £300,000 drwy grant Llywodraeth Cymru i **Academi Hywel Teifi**, Prifysgol Abertawe er mwyn sefydlu Canolfan Gymraeg yng nghanol Cwm Tawe a hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ardaloedd Cwm Tawe a Chwm Nedd.

Mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, bydd **Tŷ'r Gwrhyd**, sydd wedi'i leoli ym Mhontardawe, yn gweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau Cymraeg er mwyn darparu gwasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer pobl Cwm Tawe a Nedd. Daeth gwleidyddion ac arweinwyr cymunedol, mudiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, a staff a disgyblion ysgolion lleol ynghyd ar gyfer yr agoriad. Perfformiodd parti canu Ysgol Gymraeg Pontardawe yn ystod yr agoriad, ac fe gafodd disgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera gyfle i holi Alun Davies AC ar radio cymunedol Tŷ'r Gwrhyd ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth Cymru i sicrhau dyfodol y Gymraeg.

Yn ogystal â bod yn lleoliad ar gyfer gweithgareddau addysgol, gan gynnwys gwersi Cymraeg i oedolion, mae Tŷ'r Gwrhyd hefyd yn gartref i swyddfeydd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, Urdd Gobaith Cymru a Dysgu Cymraeg - Ardal Bae Abertawe. Mae gan Dŷ'r Gwrhyd hefyd siop lyfrau Cymraeg, ac ystafelloedd cyfarfod a gofod swyddfa i'w llogi.

Meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi: "Pleser o'r mwyaf oedd croesawu Alun Davies AC i agor Tŷ'r Gwrhyd yn swyddogol. Mae'r ganolfan wedi bod ar agor ers ychydig wythnosau bellach, ac wedi denu cryn gefnogaeth leol. Mae'r



grant wedi ein galluogi i greu canolfan sy'n rhoi nifer o fudiadau dan yr un to gan felly hwyluso cydweithio rhydd er lles y Gymraeg. Mae'n gyrchfan amlwg i'r rhai sydd am fyw eu bywydau trwy'r Gymraeg neu ddysgu mwy am yr iaith ac mae yma weithgaredd ar gyfer pob oedran a gallu ieithyddol. Rydym eisoes mewn cwta fisoedd wedi profi sut mae'r adnodd hwn wedi amlygu'r iaith yng nghymoedd Tawe a Nedd ac wedi adfer rhywfaint ar yr iaith mewn nifer o deuluoedd."

Gall tua 21,000 (15.3%) o bobl sy'n byw yn y fwrdeistref sirol hon siarad Cymraeg. Dangosodd Cyfrifiad 2011 fodd bynnag bod y Gymraeg yng Nghwm Tawe yn enwedig yn colli tir fel iaith gymunedol.

Meddai Alun Davies AC: "Bydd Tŷ'r Gwrhyd yn rhan bwysig o'r gymuned, ac yn cynnig gofod modern a chysurus i bobl o bob oed lle gallant fwynhau a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ardal hon yn un o bwysigrwydd strategol i'r iaith Gymraeg ac fe fydd y Ganolfan hon yn cyfrannu'n fawr tuag at annog mwy o bobl i ddysgu Cymraeg ynghyd â bod â'r hyder i ymarfer a defnyddio'u Cymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol."

Meddai'r Cynghorydd Ali Thomas OBE, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot: "Braint yw gweld ôl ein partneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe er mwyn datblygu canolfan Gymraeg fydd yn meithrin a chynnal yr iaith Gymraeg o fewn Castell-nedd Port Talbot. Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda phartneriaid i gyflwyno rhaglen fywiog a strategol a fydd yn cyfrannu at y gwaith o hyrwyddo'r iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a lleoliadau ffurfiol arall. Bydd yr adnodd gwych hwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg, nid yn unig yng Nghwm Tawe, ond yn yr ardal leol ehangach."



Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi;
Owain Glenister, Prif Weithredwr Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot; Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ;
Cyng. Alun Thomas, Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot; Athro Iwan Davies, Uwch Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Abertawe.

WTA S

Byddaf yn cofio haf 2016 tra byddaf, am nifer o resymau. Bum yn dilyn ymgyrchoedd dwy ochr y ddadl o blaid aros a gadael Ewrop. Er na fum yn curo drysau na mynychu cyfafodydd cyhoeddus teimlais mai aros yn rhan o gyfandir a thapestri gwledydd Ewrop oedd y ffordd gywir. Nid wyf yn teimlo'n Ewropeaidd o ran anian ond yn sicr nid wyf yn Brydeiniwr.

Onid oedd Cymru, oherwydd ei thlodi, yn derbyn cymorthdaliadau hael o Ewrop ar gyfer prosiectau diwydiannol a chymunedol Amcan Un? Codwyd yr ystad ddiwydiannol lle mae Gwasg Morgannwg gan arian Brwsel, adeiladwyd prifffyrdd, cefnogwyd ffermwyr a derbyniodd y Gymraeg nawdd hael. Tybed a gawn yr un gefnogaeth o San Steffan ymhen dwy flynedd?

Yn wir cafwyd celwyddau gan y ddwy ymgyrch: Farage a Boris yn darogan arian ychwanegol i'n hysbytai a'n hysgolion a lleihad yn nifer y mewnfudwyr. Bwriad UKIP wrth arddangos y poster o geiswyr lloches o Syria oedd codi ofn, ac fe weithiodd. Dyma'r prif reswm pam y pleidleisiodd pobl Cwm Tawe dros adael Ewrop "ofni'r hen migrants yna".

Yn dilyn y bleidlais cafwyd anrhefn gwleidyddol nas gwelwyd ei bath. Farage a Boris yn gwrthod eu cyfrifoldebau, Cameron yn ymddiswyddo a Corbyn yn aneffeithiol tost fel arweinydd yr wrthblaid. Creodd yr holl ansicrwydd boen meddwl i bawb. Amser a ddengys ond mae'n gyfnod ansicr i ni'r Cymry a'r Gymraeg wrth i'r "mawr" ddychwelyd i Brydain Fawr.

Yn hytrach nag ateb problem, mae'r canlyniad wedi codi mwy o gwestiynau am ddyfodol Cymru a'i phobl a'r berthynas rhwng gwledydd Prydain, heb sôn am gyfandir Ewrop.

Ar ochr fwy cadarnhaol mae'r cyfnod diweddar yma wedi bod yn gyfle i Gymru wneud ei marc ar lwyfan rhyngwladol gyda pherfformiad hollol wych ein tîm pêl-droed ac ymddygiad dilychwin y cefnogwyr. Gwylodd 1.27 miliwn o Gymry y gêm yn erbyn Gwlad Belg yn Ewro 2016 gan sicrhau ein lle yn y rownd gynderfynol am y tro cyntaf erioed.

Roedd yn gyfnod hanesyddol wrth i filoedd o gefnogwyr y bêl gron oresgn anawsterau er mwyn cyrraedd y gemau: streiciau awyrenau, cau'r twnel, gohirio trenau a diffyg bysiau i gludo'r cefnogwyr i'r gemau.

Mae Ewro 2016 wedi bod yn gyfle i Gymru wneud ei marc ar lwyfan y byd a dwyn sylw i'n gwlad fach ni. Bydd pawb yn Ewrop yn gwybod amdanon ni bellach o ganlyniad i sgiliau Bale, Ramsey, Allen a Ben Davies a bydd rhai mudiadau a chyrrff yn manteisio ar y cyhoeddusrwydd i ddenu ymwelwyr i Gymru a chynnig hwb a hyder wrth inni wynebu'r dyfodol ansicr.

Mae'n gyfle i Gymru ddangos ei bod yn wahanol i wledydd eraill Prydain, a'i diwylliant a'i hiaith yn fodd i ddenu cyfeillion a chefnogwyr o bob man. Mae gorfoledd a llwyddiant ar y cae pêl-droed wedi uno pobl o bob rhan a chefnidir yng Nghymru. Tybed a fydd arweinwyr a gwleidyddion Cymru yn gallu dilyn esiampl y tîm pêl-droed, sy'n amlwg yn falch iawn o gynrychioli eu gwlad ac i arddel yr iaith Gymraeg a chynnig ffordd newydd i'n cenedl i'r dyfodol.

Gareth Richards

Tud 17. Pererindod Capel yr Alltwn - Cydnabyddiaeth:
Lluniau: Joanna Porter.

Manylion hanesyddol: Christine James, Dr John Davies

CYFARFOD BLYNYDDOL Y LLAIS

Nos Fercher, 14 Medi am 7.00

Tŷ'r Gwrhyd, Pontardawe

Croeso i Bawb



Noson i gofio

**ISLWYN
WILLIAMS**

Yn cynnwys dangosiad dwy ffilm fer o waith cynhyrchu Dafydd Rowlands, sef *Boio* a *Moc Hawddamor*, ynghyd â gwerthfawrogiad o waith a bywyd Islwyn Williams gan

Robert Rhys,
Darlennydd mewn
Llenyddiaeth Gymraeg
Prifysgol Abertawe.

**Nos Wener
Medi 30, 2016
7pm**

**HWB
YSTALYFERA**

Commercial Street,
Ystalyfera, SA9 2HR

~ ~ ~

Manylion / Tocynnau:

Gareth Richards

01792 815152 (dydd)

gwasgmorgannwg@gmail.com

Cigyddion Ponty Butchers

71 Herbert Street
Pontardawe

Telephone:
01792 863197

**Llawer i'w gynnig gan eich
Cigydd Llwyddiannus**



Gwir Flas

Cymru y

Dewch i'n gweld

CORNEL NATUR

DEWI LEWIS

CHWILEN Y TRAETH

Y dyddiau hyn mae cadwriaethwyr ac ecolegwyr yn rhoi pwyslais mawr ar ddiogelu rhywogaethau prin. Y bygythiad wrth gwrs yw y bydd rhai o'r rhywogaethau hyn yn diflannu yn gyfangwbl o'r tir. Yn gyffredinol yn y cyfryngau torfol rhoir y pwyslais ar rywogaethau mawr eu maint, unai greadur neu aderyn sydd yn weladwy iawn ac yn dal y llygaid. 'Chydig iawn o sylw a roir i rywogaethau efallai nad ydynt yn gyfarwydd i'r cyhoedd neu rywogaethau a welir yn anaml.



Yn ddiweddar darllenais erthygl ddi-ddorol ar Chwilen y Traeth (*Strandline Beetle* neu'r *Beachcomber*). Chwilen drawiadol iawn yw hi sydd yn byw ar draethau glan môr. Erbyn heddiw mae hi wedi ei chyfyngu yn y Deyrnas Unedig i'r arfordiroedd sydd yn ffinio aber yr Afon Hafren (*Severn Estuary*) a Sianel Bryste (*Bristol Channel*) sydd wrth gwrs yn cynnwys arfordir de Cymru mor bell i'r gorllewin â Sir Benfro. Dyma'r ardal lle mae'r mwyafrif o'r chwilod hyn wedi'u cofnodi. Ar raddfa Ewropeaidd fe'i cofnodir ar hyd arfordir y Môr Canoldir (*Mediterranean*) gan gynnwys Corsica, Sardinia, Yr Eidal, Sicily, Malta, Algeria, Tunisia a Morocco.

Yn gymharol ddiweddar rhestrwyd y chwilen yn rhywogaeth sydd dan fygythiad yn y Deyrnas Unedig. Diolch i waith ymchwil ym Mro Gŵyr yn ystod 1964 a 1968 mae'n gwybodaeth o'r chwilen yn y Deyrnas Unedig dipyn cyfoethocach. Dagosodd yr ymchwil fod y chwilen yn hoff o gynefin sydd yn agos i linell lanw. Creaduriaid y nos yw'r oedolion, yn dod allan i fwyta pryfetach llai o faint. Maent yn hoff iawn o linell lanw sydd yn cynnwys darnau o bren neu goed marw ac yn ystod y dydd byddant yn cuddio dan ddarnau o bren er mwyn lloches. Fe'u cofnodwyd hefyd yn llochesu oddi tan darnau o blastig. Maent yn gyffredin iawn yn ystod misoedd yr haf o Fehefin i Awst. Yn ystod misoedd y gaeaf credir bod yr oedolion yn cilio i'r twyni tywod agosaf er mwyn diogelwch a lloches rhag eithafon y tywydd. Yng Nghymru cofnodwyd chwilen y traeth mewn twyni tywod o Ferthyr Mawr, ger Porthcawl hyd at Gastell Martin, Sir Benfro. Ond mae nifer y cofnodion wedi gostwng yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf.

Beth felly sydd i gyfrif am y gostyngiad? Credir bod yr arfer o lanhau'r traethau gydag offer mecanyddol tebyg i dractor yn dinistrio cynefin y chwilen. Mewn rhai ardaloedd defnyddir gwaith llaw i lanhau'r traethau ac mae'r glanhawyr yn cael eu hannog i adael darnau o bren neu blastig yn y fan a'r lle. Wrth gwrs does dim sicrwydd y bydd y pren hwnnw'n cael llonydd gan fod bri mawr ar gynnau tân gyda'r nos ar draethau y dyddiau hyn.

Ymhellach, credir bod gwyntoedd cryfion yn ystod y gaeafau diwethaf wedi golchi ymaith ac erydu nifer o dwyni tywod a oedd yn lloches i'r chwilod. Mewn rhai ardaloedd ar yr arfordir mae hyd at 20 medr o dwyni wedi eu colli i'r môr yn y blynnydoedd diwethaf. Os gwyntoedd cryf y gaeaf yw un o'r ffactorau sydd yn effeithio ar chwilen y traeth, yna does dim llawer y gallwn ei wneud i wrthsefyll hynny. Ar y llaw arall, os yw cyflenwad digonol o goed marw neu bren yn allweddol i oroesiad chwilen y traeth yna gallwn chwarae rhan bwysig i'w diogelu. Mae'n hanfodol bod ein cynghorau yn diogelu cynefinoedd pwysig a gadael darnau o bren a choed ar y traeth ar draul glendid a thaclusrwydd. Fel unigolion gallwn ninnau hefyd sicrhau nad ydym yn amharu ar gynefin trwy gludo pren a choed oddi ar linell y llanw. Dyna wers i ni gyd i geisio sicrhau bod rhai o'r rhywogaethau llai a di-sylw yn goroesi'r bygythiad.

POBOL Y CWM

GWYNETH GEORGE

Braf oedd cael cyfarch Mrs Gwyneth George, Heol Tygwyn, Clydach, yn 100 oed ar 1 Gorffennaf.

Roedd trychineb ac erchyllterau ar gychwyn ar gyfandir Ewrop ar ddiwrnod cyntaf Brwydr y Somme gan mlynedd yn ôl ond mae'n siwr bod dagrau o lawenydd ynghanol yr hinsawdd dywyll pan anwyd Gwyneth i Rachel a William Williams. Colier yng ngwaith Felin-frân, y Glais oedd William a Rachel o Gaeau-bach, Ynystawe.



Ni fu Gwyneth erioed o Glydach. Dysgodd grefft o winio dillad dynion gyda chwmni James "The Bon", Treforys ac yn ddiweddarach bu'n gwnio i gwmni Hodges, Abertawe.

Priododd a Granville George, Ysgrifennydd Calfaria a Chlwb Criced Clydach. Gweithiodd i'r Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB). Bu farw yntau, yn ddyn cymharol ifanc, ym 1974. Ganwyd iddynt ferch, Meinir a dreuliodd 46 mlynedd yn Nhŷ Iiston, Swyddfa Undeb yr Bedyddwyr, Abertawe.

Gwelodd Gwyneth dro ar fyd yn ei chartref ysbrydol, Calfaria, a'i phentref. Magwyd hi yng nghyfnod y Parchedig Valentine Evans (awdur y llyfryn *Clydach a'r Cylch*) pan oedd bri ar y Band of Hope, cymdeithas y bobl ifanc, cwrdd gweddi, ysgol gân, y Gymanfa Ganu, Martshio'r Sulgwyn a'r capel yn llawn. Bu'n athrawes Ysgol Sul am gyfnod helaeth. Serch y newid mae Gwyneth yn sionc ei hysbryd a thrwsiadus ei hymarweddiad. Cyfarchion a phob dymuniad da, Gwyneth.

Golygydd mis Medi

Catrin Heledd Richards

Newyddion i'r canlynol os gwelwch yn dda:

**Gareth Richards, Gwasg Morgannwg
Ystad Ddiwydiannol Mynachlog Nedd
Castell-nedd, SA10 7DR**

neu e-bost dewiannette@gmail.com

Erbyn Awst 20fed 2016 os gwelwch yn dda.

Ariennir *Llais* yn
rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAG

Cofeb Gymreig yn Fflandrys

Ddwy flynedd yn ôl, ar Awst 16, 2014, ar achlysur canmlwyddiant cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd Cofeb ei dadorchuddio yn Langemark, ger Ypres, Gwlad Belg, i goffau'r miloedd ar filoedd o filwyr Cymreig a gymerodd ran ac a fu farw yn un o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd yn hanes y Rhyfel Byd Cyntaf. Langemark a'r ardal gyfagos oedd calon y frwydr ym 1917, wrth i'r milwyr Cymreig symud ymlaen drwy'r pentref ar ddiwrnod cyntaf Brwydr Pilckem Ridge a Passchendale. Dadorchuddiwyd y Gofeb mewn seremoni arbennig gan Mr Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru ynghyd â Gweinidog o Lywodraeth Gwlad Belg, sef y Llywydd Geert Bourgeois. Gweledigaeth a breuddwyd dau berson, sef Mr Erwin Ureel, o Fflandrys, Gwlad Belg a Mr Peter Carter Jones, yn wreiddiol o'r Rhondda, oedd bennaf gyfrifol am y Gofeb. Diddorol yw nodi fod Peter wedi byw yng Nghlydach am dros ddeugain mlynedd cyn iddo symud i fyw i Abercraf.

Yn nodweddiadol, ar groesffordd fechan ger 'Pilckem Ridge' tua dwy filltir o Langemark, mae caffï 'De Sportsman'. Mae Mr Marc Decaestecker, perchennog y caffï, wedi cysegru ei gaffï er cof am y Cymry a fu farw ar Pilckem Ridge a Passchendale. Yn fwyaf arbennig, ac mewn cornel o'i gaffï, mae'n anrhydeddu'r bardd Cymreig Hedd Wyn, a fu farw ar Orffennaf 31, 1917, ar safle'r caffï presennol.

Ar ymweliad â Fflandrys yn y flwyddyn 2010, ac ar ôl cyfarfod â Mr Marc Decaestecker a Mr Erwin Ureel, sylweddolodd Mr Peter Carter Jones bod gan bob gwlad gofeb lle'r oedd pobl yn gallu ymweld â hi i goffau ac i gydnabod aberth pennaf eu milwyr, ond nid oedd cofeb ar gael i goffau'r Cymry. Ysgogwyd ef i'r byw ac aeth ati i wneud yn iawn am yr anghyfiawnder hwn.

Rhwng 2010 a 2014, a gyda chymorth Llywodraeth Cymru, roedd Pwyllgor Cymreig o dan ofal Mr Peter Carter Jones, a'r Pwyllgor o Wlad Belg o dan ofal Mr Erwin Ureel, wedi codi dros £170,000 ar gyfer gosod Cofeb yn Langemark, gyda'r cyfraniadau yn dod yn bennaf oddi wrth unigolion, gwahanol fudiadau a

llawer o gynghorau cymunedol yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, mae cromlech o bedair carreg Pennwn Glas Cymreig o chwarel Craig yr Hesg, ger Pontypridd, nawr yn sefyll ar dir cyngor gyferbyn â'r caffï 'De Sportsman' fel Cofeb barhaol i'r gwroniaid a laddwyd ar Pilckem Ridge a phentref Passchendale. Ar y gromlech yma saif y Ddraig Goch, wyth troedfedd o uchder wedi'i chynllunio gan Lee Odishow, arlunydd o Ddinbych y Pysgod. Fe'i gwnaethpwyd o efydd gan 'Castle Fine Arts', ffoundri yn Llanrhaeadr ym Mochnant, yng Ngogledd Cymru. Roedd y gwaith o gludo'r

cerrig Pennwn Glas Cymreig, pob un yn pwysu rhwng chwech ac wyth tunnell, heb sôn am y Ddraig Goch, nid yn unig yn ymdrech enfawr, ond hefyd yn llafur cariad gan nifer o bobl. Gyda gosgordd o feicwyr o'r Llang Brydeinig, cludwyd popeth o Gymru i Calais ac yna i ardal Fflandrys. Yn sylfaen i'r Gofeb mae pridd a gasglwyd o gopa'r Wyddfa, Pen y Fan ac o gartref Hedd Wyn. Safle'r Gofeb yw'r union fan y syrthiodd Hedd Wyn.

Ymhlith y rhai oedd yn bresennol yn y Seremoni Ddadorchuddio ym mis Awst 2014 ynghyd â Mr Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru a Llywydd Geert Bourgeois, oedd aelodau Llywodraethau Cymru a

Gwlad Belg, disgynyddion rhai o'r milwyr Cymreig a frwydrodd mor ddewr yn ystod y Rhyfel Mawr, Mr Peter Carter Jones, Mr Erwin Ureel ac aelodau o'r ddau bwyllgor, Simon Weston, Rhys Meirion a Chôr Rygbi, Gogledd Cymru.

Yn 2014, cafodd Mr Peter Jones, Llywydd Côr Rygbi Gogledd Cymru a bellach aelod o Gôr y Gyrlais, Ystradgynlais, ei anrhydeddu gan y Frenhines wrth iddo dderbyn y fedal BEM am ei ymdrechion clodwiw a diflino i sicrhau bod Cofeb yn Langemark i anrhydeddu'r Cymry. Cyflwynwyd y fedal iddo ar ran y Frenhines gan y Foneddiges Shân Legge-Bourke, sydd â chysylltiadau agos iawn â Chôr y Gyrlais. Ar ddiwedd mis Hydref eleni bydd Côr y Gyrlais yn mynd ar daith i Fflandrys a thra yno bydd y Côr yn ymweld â'r Gofeb Gymreig ym Mynwent Artillery Wood, lle claddwyd Hedd Wyn, ac oddi yno i Menin Gate ar gyfer gwasanaeth y 'Last Post'. Heb amheuaeth fe fydd yr ymweliad â Fflandrys yn deimladwy iawn ond serch hynny mae'r Côr yn edrych ymlaen yn eiddgar iawn i sefyll am ychydig funudau yn y fan lle syrthiodd cymaint o'n bechgyn ni yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.



*Y Gofeb
Gymreig yn
Fflandrys,
Gwlad Belg*



*Y Foneddiges Shân Legge-Bourke yn
cyflwyno y fedal B.E.M. ar ran y Frenhines i
Mr. Peter Carter Jones*

**Glyn Williams, gyda chymorth a diolch i
Mr Peter Carter Jones, BEM.**

CAEAU CWMTAWE – TWLL Y GWYDDYL

1840

Waun y grug moel • Grug moel
Trian bach • Cae bach crug moel
Coedcae piwtur • Waun dan ty
Cae Sgubor • Cae bach y glo
Cae cibau uwch • Yr heol
Bryn y waun • Yr erw delyn
Yr erw pwll • Gwaun y banwill
Dwy erw Leyshon (neu Sgubor)
Gwaun nerreg • Gwaun eithin
Waun ca' nos
Cae y ty bach uwch • Cae cenol
Cae y ty bach isaf
Cae ca' nos isaf
Cae ca' nos uchaf
Graig fach • Graig isha
Graig coed • Cae mynydd
Cae yr ody • Graig fawr
Yr arch (neu) arth fawr
Crofft ddu

2016

Cae ben ty • Cae dan ty
Cae Sgubor • Cae Sgubor ucha'
Bryn Eithin • Parc bach
Cae du isha' • Cae du ucha'
Cae coch isha' • Cae coch ucha'
Cae mawr • Cae ucha'
Cae Eithin ucha' • Cae mynydd
Cae dan yr hewl
Cae eithin bach
Cae brwyn • Waun felen
Waun goch • Cae bach pella'
Cae bach nes ag yma
Cae letric • Cae twmpyn
Waun yr erych • Y Graig
Waun Islwyn
* Waun Lluast
* Waun Penlannau

* Enillwyd mewn gornest ymladd
ceiliogod

D. a W. THOMAS

Garej Capel Road, Clydach, Abertawe

Ffôn: 01792 842529

Busnes teuluol ers 1968

Good quality cars in stock

from £1,500 - £15,000.

All serviced with MOT.

Mostly local cars.

CEIR O SAFON

Prisau rhwng £1,500 - £15,000

Gwasanaeth ac MOT ar bob un

Ceir lleol yw'r mwyafrif

Pam prynu car newydd os oes rhai 3
mis oed ar gael am bris rhesymol?

MOT

£39.50

with this voucher

*Gostyngiad arbennig i
ddarllenwyr y Llais*

ABER-CRAF

MARWOLAETH BERYL MACHO

Ar ôl brwydro'n ddewr dros bedair blynedd yn erbyn y clefyd didostur cancr, fe ildiodd Mrs Beryl Macho, Heol Tawe, i'r gelyn ar 12 Mehefin. Yn sicr fe wél ei mab a'r cysylltiadau teuluol ei heisiau yn fawr iawn, a bydd bwllch amlwg yn y gymuned leol yn gyffredinol.

Byddwn ni, ddarlennwyr y *Llais* yn gweld ei heisiau hefyd, oherwydd Mrs Macho oedd gohebydd y *Llais* yn Aber-craf, ac roedd ei chyfraniad misol dros nifer o flynyddoedd yn gyson a dibynadwy gan sôn am hynt a helynt trigolion yr ardal er gwybodaeth i bawb a chyn-drigolion Aber-craf sydd oddi cartref.

Yn ogystal, fe fu'n un o bileri capel Bryn Seion gan weithredu fel ysgrifennydd y capel hyd at gyfnod datgorffori'r eglwys, a oedd yn dristwch mawr iddi a'i chyd-aelodau. Wedi hynny ymunodd â chynulleidfa Eglwys St. David's yn y pentref, gan ddangos ffyddlondeb mawr i'r eglwys honno.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r teulu a'r gymuned a mynegwn ein gwerthfawrogiad cywir am gyfraniad clodwïw Mrs Beryl Macho.

O.N. Os oes rhywun yn ardal Aber-craf yn fodlon casglu newyddion ar gyfer y *Llais* cysyllter â John Evans (01792 842853), ac os oes unrhywun yn fodlon derbyn copiâu o'r *Llais* a'u dosbarthu yn yr ardal cysyllter â Huw Bowen (01792 842102).

YSTRADGYNLAIS

CÔR Y GYRLAIS

Ar ddydd Iau, Mai 26, gwahoddwyd y côr i ganu yn eglwys Ystumllwynarth gyda phlant Ysgol Llwynderw. Bu'r plant yn diddanu gyda chaneuon, adroddiadau, eitemau offerynnol a dawnsio gwerin. 'Roeddynt yn ardderchog. Canodd y côr nifer o ganeuon ac yna unodd y plant ysgol gyda'r soprano Ros Evans i ganu 'Anfonaf Angel'. Daeth y gyngerdd i ben drwy ganu'r Anthem Genedlaethol.

CÔR Y GYRLAIS YNG NGHADEIRLAN LLAN-DAF

Ar nos Wener, Mehefin 3, roedd Cadeirlan Llan-daf yn atseinio i sŵn caneuon o ddwy wlad. Roedd y 'Rustavi Ensemble' o Georgia wedi gwahodd y côr i uno gyda nhw i ganu yng Ngŵyl y Llais, Caerdydd. Dyna brofiad gwych i'r corau a'r gynulleidfa. Clywyd cordiau a harmonïau bythgofiadwy gan y 'Rustavi Ensemble' a hwy ond yn ddeg mewn nifer.

Daw'r 'Rustavi Ensemble' o Georgia ac fe'u ffrufiwyd yn 1968 gan Anzor Erkomaishvili. Maent wedi teithio i fwy na hanner cant o wledydd y byd, ac mae un o'u caneuon gwerin a recordiwyd yn cael ei chwarae o hyd ar long-ofod sy'n amgylchynu'r byd. Fis Hydref diwethaf roeddynt yn canu yn Neuadd Les Ystradgynlais ac estynnwyd gwahoddiad i Gôr y Gyrlais i ganu gyda nhw yno. Bu hynny'n llwyddiant ysgubol, ac roedd yn anrhydedd i Gôr y Gyrlais i dderbyn gwahoddiad i ganu gyda nhw yr ail waith yng Nghadeirlan Llan-daf yng Ngŵyl y Llais, Caerdydd. Bu'r ddau gôr yn ymarfer yn y prynhawn gyda'r Georgiaid yn dysgu cytgan 'Gwahoddiad' ac 'O Gymru' yn llwyddiannus iawn, a'r Gyrlais yn dysgu alaw werin o Georgia a ganwyd yn ddigyfeiliant.

Tra'n aros i'r gwahoddedigion pwysig gyrraedd, bu Christopher Lewis, cyfeilydd y Côr, yn diddanu'r gynulleidfa drwy chwarae nifer o ganeuon enwog ar y piano. Ar ddechrau'r gyngerdd croesawyd pawb gan drefnydd yr Ŵyl ac yn dilyn, dywedodd Llysgennad Georgia fod gan y ddwy wlad eu

traddodiad cerddorol a'u halawon gwerin unigryw.

Yn hanner cyntaf y gyngerdd canodd Côr y Gyrlais 'Llanfair', 'Myfanwy', 'Y Tangnefeddwyr', 'Dashenka', 'American Trilogy' ac 'Anthem o Chess' dan arweiniad Glyn Williams y cyfarwyddwr cerdd a Christopher Lewis yn cyfeilio. Rhoddodd Glyn Williams eglurhad byr am bob cân. Yna, unodd y ddau gôr, a'r canlyniad yn llwyddiant mawr a'r gynulleidfa yn werthfawrogol.

Wedi egwyl fer, daeth 'Rustavi Ensemble' i ganu eu caneuon gwerin a rhoi eitemau offerynnol gwych. Roedd y sain cyfoethog a gynhyrchwyd gan ddeg dyn yn rhyfeddol ac yn fythgofiadwy. Hwn oedd eu hunig gyngerdd, ac roeddent yn hedfan adref y dydd canlynol.

GWELLHAD BUAN

Ein dymuniadau gorau i Mrs Ann Soroka sydd ar hyn o bryd yn ysbyty'r gymuned. Da yw gweld Mrs Ann Marke dipyn yn well erbyn hyn.

CYNGERDD

Neuadd Lês Ystradgynlais

Nos Sadwrn, Medi 10, 2016
am 7 o'r gloch

RHYS MEIRION



Gyda

Chôr Rygbi Gogledd Cymru

Arweinydd: Geraint Roberts

Cyfeilydd: Angela Roberts

Côr y Gyrlais

Arweinydd: Glyn Williams

Cyfeilydd: Christopher Lewis

Cyflwynydd y noson: Toni Caroll

Dylan Cernyw (Telynor)

Gwydion Rees (Soddgrythor)

Tocynnau: £12

**Elw tuag at Cofeb i goffau canmlwyddiant
marwolaeth y bardd Hedd Wyn.**

CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch i bawb a fu wrthi eleni eto yn casglu o dŷ i dŷ at yr achos teilwng hwn. Llauer o ddiolch i chi, y cyhoedd, am eich cyfraniadau. Ar fore dydd Sul, Mai 22, cynhaliwyd oedfa arbennig Cymorth Cristnogol yng nghapel Aion. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan gynrychiolwyr o'r gwahanol leoedd o addoliad ac fe gafwyd anerchiad pwrpasol gan Mr Huw Thomas, trefnydd Cymorth Cristnogol. Yr organyddes oedd Mrs Siân Richards. Bu'n oedfa fendithiol.

DIOLCH

Hoffai teulu'r diweddar Mair Morgan, Gurnosfa, sef Peter, Jane, Helen, Chris, Philip, a Fran ddiolch i gymdogion a ffrindiau am eu geiriau caredig a chydymdeimlad ar golli mam annwyl.

Roedd Mair yn chwaer annwyl i Elvira (Vi), Glyn, Noel, Eirwyn a Glenys, a chwaer yng nghyfraith i Cliff, Gaynor, Jill a'r diweddar Edgar. Diolch i bawb a ddaeth i'r angladd ac am gyfraniadau i Ymchwil Cancr. Diolch hefyd i Mr Gareth Hopkin am ei eiriau o gysur i'r teulu, ac i Roger Castle a'i ferch, Julie, am eu gwasanaeth urddasol.

MARWOLAETHAU

Yn ei gartref, 4 Bryn Goraf, ar Fai 26 bu farw David Watkins, priod Linda, tad a thad yng nghyfraith Lisa ac Eifion, Delme a Lisa, tadcu Harri, Ryan, Connah ac Archie, brawd Cheryl.

Ar Fai 29 bu farw Marjorie Lake, gynt o Min-y-rhos, priod y ddiweddar Cled, mam Roy a Gary, mam yng nghyfraith Jennifer a Lynwen, mamgu Steven, Bethan, Alison a Jonathon, a hen-famgu Dewi, Megan, Dylan a Cadi.

Yn ysbyty Treforys ar Fehelin 11 bu farw Olwen Owens, Heol y Gwynt, Glan-rhyd, priod Cres, mam a mam yng nghyfraith Nigel a Divinia, mamgu Stacey, Dean a'i briod Hayley, chwaer Maureen a'r diweddar Roy.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd hyn yn eu hiraeth a'u galar.

YSTALYFERA

TAD-CU A MAM-GU FALCH IAWN

Fliwyddyn yn ôl roeddwn yn dymuno'n dda i Adam, ŵyr Rhys a Kath wrth iddo gychwyn ar ei yrfa academiaidd ym Mhrifysgol Southampton. Erbyn hyn mae wedi cwblhau ei flwyddyn gyntaf ac wedi llwyddo yn arbennig yn ei arholiadau gyda chlod ac anrhydedd.

Maes astudiaeth Adam yw Daearyddiaeth Ffisegol ac am y blynyddoedd nesaf bydd yr ymroi yn llwyr i'r pwnc, hyd nes y daw ei gwrs gradd i ben. Wedi iddo dderbyn canlyniadau oedd wrth ei fodd ac wrth fodd ei deulu annwyl, mae Adam 'nawr yn edrych ymlaen at dreulio peth amser yn chwilio am swydd dros wyliau'r haf er mwyn cael ychydig o arian i dalu am wersi gyrru. Dyna'r nod nesaf, ac yn'n ôl i'r coleg ym mis Medi i ailgydio yn ei astudiaethau.

Pob dymuniad da a phob llwyddiant i Adam i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU MAWR I JONATHAN A'I FFRINDIAU

Dychmygwch yr olygfa - mae'n 12 y nos ac felly'n dywyll. Mae grŵp o bobol wedi ymgasglu wrth droed yr Wyddfa yn barod gyda'u pcedi o Haribo a rholiau selsig i herio'r llethrau: saith o gyfreithwyr cwmni Knights, Rhydychen; ugain o bobol sy'n gysylltiedig â chanolfan PACE (canolfan yn Aylesbury ar gyfer pobol ifanc sydd wedi'u taro gan cerebral palsy) a gwirfoddolwyr o Dîm Achub Bywyd Eryri. Rhain oedd yn tywys pererinion y nos er mwyn iddynt gael y wefr o weld y wawr yn ei holl ysblander o gopa mynydd uchaf Cymru. Ond yn ogystal â hynny roedd hi'n daith noddedig i godi arian tuag at PACE. Cyrhaeddwn nhw'r copa am 4 o'r gloch y bore. Disgwyliwyd i'r haul ymddangos am 4.36 y bore ac er mawr siom i bawb roedd niwl trwchus wedi cofleidio'r mynydd a methwyd gweld y wawr.

Wrth ddringo'r mynydd aethant ar hyd llwybr y rhodiwr ond wrth ddychwelyd daethant i lawr ar hyd llwybr Rhyd-ddu gyda thafarn y Cwellyn i'w weld yn y pellter a'r gobaith am frecwest llawn. Roedd disgyn o'r copa dipyn yn haws na'r daith ifyny. Er na welsant y wawr na themlo gwres pelydrau'r haul wrth gerdded bu ymdrech y cyfreithwyr yn ddigon i godi £1,825 tuag at PACE. Maent wedi sicrhau bydd ychydig o heulwen yn cyrraedd bywyd ambell un sydd â'u hamgylchiadau ychydig yn wahanol i'r rhelyw ohonom.

Mawr yw'r diolch fod rhywrai o hyd yn dal i feddwl am y llai ffodus ac yn barod i'w cynorthwyo mewn modd ymarferol.



Jonathan (dde) gyda'i ffrindiau ar gopa'r Wyddfa.

COFIO'N DYNER AM DAPHNE

Gyda'r tristwch pennaf clywyd y newyddion blin fod Mrs Daphne Jones wedi ymadael â'n buchedd ni. Cofiw'n amdani fel gwraig rinweddol i'w hanwylid David ac fel mam gariadus i Kerry ac i Janice. Roedd hefyd yn famgu, hen famgu ac yn chwaer a chwaer yng nghyfraith i'w theulu.

Bendithiwyd Daphne ag ysbyrd ffein a phersonoliaeth ddiymhongar, ac ar sail hynawsedd ei chymeriad aeth yn ddwfn iawn i serchiadau pawb a gafodd y fraint o'i hadnabod.

Cofiw'n am Daphne yn fwyaf arbennig am ei chyfraniad clodwiw i fywyd addolgar capel Jerwsalem yn Ystalyfera. Bu'n ffyddlon i'r gwasanaethau yno ac yn ei dydd hefyd bu Daphne yn athrawes Ysgol Sul yn fawr ei dylanwad ar bobol ifanc yr ardal.

Diolch am ei bywyd hir a dedwydd ac am y cyfan oll roedd Daphne yn golygu i bawb a gafodd y fraint o'i hadnabod.

DYMUNO'N DDA I NERYS

Hyfryd o beth yw cael teimlo'n well ar ol triniaeth yn yr ysbyty. Dyna fel mae wedi bod yn hanes Nerys, Tanyfarteg yn ddiweddar.

Da yw cael dweud bod Nerys ar ben ei phethau unwaith eto, ar ol bod yn Ysbyty Treforys, am gyfnod byr.

Mae hynny'n newyddion da i Phil, i'r teulu oll ac yn wir i bawb ohonom sy'n adnabod Nerys.

HUW HARRIES

Bu farw Huw, mab y bardd Leslie Harries, cyn-athro Cymraeg Ysgol Ramadeg Llandysul ac yn ddiweddarach Arolygydd EM. Codwyd Leslie yn Heol Newydd, Godre'r-graig cyn gadael am goleg.

Athro oedd Huw yn y Gogledd a hanner brawd a chwaer iddo oedd yr actor Wyn Bowen Harries ac Ann, gwraig y Parchg Ddr Densil Morgan, Ynysforgan. Yn ei angladd, yn ddiweddar, darllenwyd y gerdd yma o waith ei dad Leslie Harries.

Hiraeth

Pan fyddo'r hin yn crwydro'n brudd ei gwedd,
A godre'i llaeswisg niwl yn lleitho'r ddôl,
Gan droi'r pêr sudd ym mlodau'r maes yn fedd
I'r gwenyn barus heb fynd eto'n ôl;

Daw cyson rygnu rhod Ffrwd-wen i'm clyw,
 Fel sŵn rhyw fagbib gudd o'r cwm islaw,
 Yn rhybudd clir o encilfeydd y llyw
 Sy'n trefnu stormydd ceirydd gwlad y glaw;
 Bryd hynny clywaf drwst peiriannau'r pwll
 Yn lluwch Tarenni'n codi'r tramiâu glo,
 A'r chwilog lu o wŷr yn dod o'r twll,
 Brynhawngwaith gynt, yn llesg o'u tywyll fro.
 Bryd hynny gwelaf, luddedigion du,
 Fy nhad yn grwm yn nhrin y dyddiau fu.

YMGYRCH CYMRU YN EWROP



Bu miloedd o Gymry ar ymweliad â Ffrainc yn ddiweddar yn cefnogi ymdrech wych Cymru yng nghystadleuaeth pel-droed gwledydd Ewrop. Roedd perfformiadau'r tîm yn gelfydd a chanmolwyd eu hagwedd yn fawr gan bawb. Bu ymddygiad a chwarteisi'r cefnogwyr yn denu sylw hefyd a braf o beth oedd hynny o gofio hanes cefnogwyr Rwsia, Lloegr a Ffrainc.

Dyma lun o Alun Llewelyn, Gwion Lewis (Clydach) a Heledd ac Iwan Llewelyn (Ystalyfera) yn mwynhau'r fuddugoliaeth dros Slofacia ym Mordeaux.

CWMLLYNFELL

CROESO

Da oedd gweld Hywel, mab y diweddar Mr a Mrs Ellis Davies, a'i wraig Pam ar ymweliad â'r pentre o Seland Newydd. Ymfudodd yno fel athro hanner can mlynedd yn ôl a chael ei ddyrchafu yn brifathro cyn ei ymddeoliad. Roedd y ddau yn aros gyda ei gyfnither, Moyra, a Jeff yn Heol Samuel.

CLWB BOWLIO DAN DO MAT BYR

Mae y Clwb ers misoedd wedi bod yn croesawu ac yn hyfforddi disgyblion yr Ysgol Gynradd ac mae yn dda dweud bod tri ohonynt wedi cael y cyfle i gynrychioli y pentre mewn sawl gêm, sef Kieran Evans, Llian Llywelyn a Tirion Bevan. Mae y tri wrth eu bodd yn chwarae. Dalier ati!

Rhaid llongyfarch Martin Harries, aelod o dîm y Clwb, ar gael ei ddewis eto i gynrychioli Cymru yn y bencampwriaeth a gynhelir yn Bromsgrove yn Nhachwedd.

CANGEN CYMRU BYWIOG

Dyma restr o'r gwibdeithiau a drefnwyd am eleni i'r gangen:

Hydref 12	Caerfyrddin
Tachwedd 16	Abaty Cwm Hir

Cynhelir buffet yn y Neuadd i'r aelodau ar Fedi'r 7 fed a bydd y gangen yn ymweld â'r George yng Nghwmtwrch i fwynhau cinio Nadolig ar 14eg o Ragfyr.

DATHLU

Dymuniadau gorau i Mr. Morlais Lewis, Cefn Bryn Brain, sydd newydd dathlu ei benblwydd yn 90 oed. Gwellhad buan i'w wraig Audrey, sydd yn ysbyty Glanamau ar hyn o bryd ar ôl damwain yn ei chartref.

YR ALLTWN

PÊL-RWYD

Llongyfarchiadau i Chloe, merch Jane a Kevin James ac wyres i Pamela a John Thomas ar gael ei dewis i chwarae i dîm pêl-rwyd Cymru o dan un ar hugain yn Durban, De Affrica. Mae Chloe newydd orffen ei blwyddyn gyntaf yn astudio Gwyddoniaeth Chwaraeon ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Pob lwc iddi ar y daith!

PRIODAS

Ar Fai 7fed priododd Gethin, mab Lynda a Terry Hammond, Bwlch-y-gwynt, â Faith, merch Cathy Fellows, yn Eglwys Sant Ioan yr Efengylwr, Cinderford. Yn ystod y gwasanaeth, darllenodd Terry y gerdd "Song" gan George Meredith ac yn ystod y cofrestru canodd ei chwaer Rhiannon fedli o emynau a chaneuon traddodiadol ar y piano. Aethant ar eu mis mêl i'r Gelli Gandryll oherwydd mae'r ddau yn ddarllenwyr brwd. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd lle mae'r ddau yn rheolwyr ar gwmnïau yswiriant.

PENBLWYDD 90

Ar Fai 11eg dathlodd Peter Matthews, Alltwn Chwyth ei benblwydd yn 90 oed - tad John, Helen a Kathryn a hen dadcu Henry ac Isla. Yn enedigol o Abetawe roedd yn beiriannydd sifil ac yn hoff iawn o gerdded a gwneud gwaith coed.

AELOD CYNULLIAD

Llongyfarchiadau i Jeremy Miles, Bryn Morgrug, ar gael ei ethol yn Aelod Cynulliad dros Gastell-nedd. Yn fab i Gaynor a Huw Miles, Pontarddulais, cafodd ei addysg yn Ysgol Gymraeg Bryn Iago ac Ysgol Gyfun Ystalyfera lle roedd yn brif fachgen ac yn aelod o dîm siarad cyhoeddus llwyddiannus. Hefyd roedd yn ail yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Roedd yn chwarae'r ewffoniwm i Fand Pres Pontarddulais ac yn aelod o Fand Pres Ieuenctid Gorllewin Morgannwg aeth ar daith i Awstralia.



Aeth ymlaen i astudio'r Gyfraith yng Ngholeg Newydd, Rhydychen ac ar ôl graddio enillodd ysgoloriaeth i ddarlithio yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Warsaw, Gwlad Pŵyl. Yna aeth i weithio i adrannau'r Gyfraith gyda Channel 4 a Lion TV ac yn roedd yn Is-Lywydd Hŷn Corfforaeth Ddarlledu Genedlaethol America. Tra yn Llundain roedd yn Gadeirydd Sefydliad Aneirin Bevan, Cadeirydd ysgol gyfun yn Nwyrain Llundain ac yn aelod ffyddlon ac yn ymddiriedolwr Capel Wesle, City Road. Dymunwn yn dda iddo.

PRIODAS DDIEMWNT

Llongyfarchiadau i Riona ac Elfryn Bowen, Stryd Edward ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt. Mae ganddynt ddau o blant, Arwyn a Helen, a phedwar o wyrion - Gethin, Rhys, Carys a Lowri. Roedd Elfryn yn rheolwr yng ngwaith y Mond. Mae Riona yn gyfeilyddes fedrus iawn ac wedi bod yn organyddes yng Nghapel Danygraig ac yn gyfeilyddes i Gôr Merched-y-Dref, Pontardawe, Côr Meibion Rhos ac am dros ugain mlynedd i Gôr y Gyrlais, Ystradgynlais.

DYRCHAFIAD

Braf yw deall bod Rhiannon Hammond-Pugsley wedi ei phenodi yn bennaeth cynorthwyol yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Ar hyn o bryd mae'n dysgu Gymraeg ac yn bennaeth blwyddyn a chydlynedd cyswllt cynradd yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin, Caerfyrddin. Mae Rhiannon yn aelod ffyddlon iawn o Gapel yr Alltwn ac wastad yn barod i gynnal oedfa ac i gyfeilio pan fo angen. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd.

CAPEL YR ALLTWEN

BEDYDD

Ar Fai 29ain, bedyddiwyd Ellis Gwyn Jones gan y gweinidog, y Parchedig Gareth Morgan Jones, mab Kayleigh ac Owain, wŷr Ann a Ceri Jones, Heol Derwen a Gareth ac Anwen Williams, gor-wŷr Mair Jones Craig-cefn-parc, Maureen Griffiths, Llandybie a Mair a David Williams, Trebannws a gor-wŷr Menna a David Lloyd, Aberaeron.

CHWIORYDD

Yn sgil y ffaieth bod aelodau'r Chwaeroliaeth wedi ei noddi sawl gwaith ar deithiau cerdded noddedig, daeth Vaughan Lewis, gŵr Susan Flook-Lewis a mab yng nghyfraith Margaret Flook sy'n aelodau'r Capel, i siarad â'r Chwiorydd am y Gymdeithas Macular. Pwysleisiodd ei bod hi'n bwysig iawn i gymeryd camau i ddiogelu eich golwg. Yn 65 mlwydd oed mae un o bob 2,000 yn dioddef o Macular Degeneration, ond erbyn yr oed 90 mae un o bob pump yn dioddef. Os ydych yn sylwi bod eich golwg yn dirywio mae'n bwysig eich bod yn mynd at yr optegydd yn syth. Yn ddiweddar aeth Vaughan a thri o'i ffrindiau ar daith gerdded - The West Highland Way o Glasgow i Fort William - 95 milltir mewn pum niwrnod. Os ydych chi am i Vaughan ddod atoch i siarad am y Gymdeithas cysylltwch ag e drwy eboston vnlewis@gmail.com



Chwiorydd yr Alltwn yn mwynhau te yn y Pantri, Clydach

DYMUNO GWELLHAD

Dymunwn wellhad buan i Peggy Williams, Heol Gwyn sydd yn Ysbyty Treforys yn dilyn damwain ddifrifol yng nghartref ei merch Sandra.

YR URDD

Am y tro cyntaf bu cystadleuaeth coginio yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Ar ôl ennill yn Sir De Morgannwg allan o un ar ddeg o ymgeiswyr, ymddangosodd Gwenlli, merch Elen a Rhodri ac wyres Nest a Gwynfor Davies, Pen-yr-Alltwn yn y rownd derfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fflint, lle daeth yn drydydd allan o ddau ar bymtheg o ymgeiswyr blynyddoedd 5 a 6. Enillodd ei chwaer Lilwen yr adran ffotograffiaeth du a gwyn o dan 8 gyda llun o'i thadcu, Gwynfor. Mae Gwenlli a Lilwen yn ddisgyblion yn Ysgol Pencae, Llandaf.



Gwenlli Tegai



Lilwen Myfi a'i thadcu, Gwynfor Davies

EWRO 16

Cafodd Ben Norling, Pen-yr-Alltwn, amser cyffrous iawn ar drip Ysgol Cwmtawe yn Ffrainc wrth gael ei lun wedi'i dynnu gyda'r pêl-droediwr enwog Gareth Bale. Mae Ben yn fab i Nicola a Chris Norling, wŷr i Wynne a Philip Norling a Christine ac Alan Morgan a gor-wŷr i Enid Hutchings ac Ann Norling.

MERCHED Y WAWR

Diddorol iawn oedd sgwrs Gwynnant Hughes, Castell-nedd, cyn-brifathro ac aelod ffyddlon iawn yn Eglwys Soar Maes-yr-Haf, ar y bardd R.S.Thomas. Rhoddwyd cipolwg trylwyr i ni o waith y bardd medrus hwn ac ysgogwyd sawl un ohonom i fynd yn ôl i ddarllen ei gampweithiau. Diolch i Gwynnant am brynhawn hwylus, hynod o addysgiadol.

Ar ddydd Sadwrn Mehefin 11eg aeth sawl un o'r gangen i Neuadd Llewelyn, Penllergaer i de prynhawn ac osciwn fud. Mwynhawyd y teisiennod bendigedig ac edmygwyd y llyeiniau hardd, hen ffasiwn a'r llestri pert - pob peth yn chwaethus. Gwnaethpwyd elw o £1,040. Prynhawn pleserus iawn o fwynhau a chymdeithasu.

PONTARDAWE

TABERNACL

OEDFAON MIS GORFFENAF

17	10.30	Y Parchedig Owen Pugh
24	10.30	Y Chwaer Marie Thomas (Saesneg)
31	10.30	I'w lenwi

OEDFAON MIS AWST

7	10.30	Y Parchedig Owen Pugh - Cymundeb
13	10.30	Y Brawd Carl Williams yng nghapel Soar
20	10.30	Y Brawd Rhydian Griffiths
27	10.30	Y Chwaer Margaret Jones yng nghapel Soar

GWIBDAITH

Ar 23 Mehefin bydd aelodau cymdeithas ein chwiorydd, sef Cymdeithas Ruth a Naomi, yn mynd ar eu gwibdaith flynyddol. Eleni maent yn teithio i'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol ger Nantgaredig yn Sir Gâr. Yn dilyn yr ymweliad, byddant yn galw yng ngwesty'r 'White Hart' yn Llandeilo ar y ffordd adref. Mae'r bws yn llawn a bydd rhai aelodau hefyd yn teithio yn eu ceir.

CYNGERDD

Roedd Band Arian Gwauncaegurwenar ei orau yn y gyngerdd yng nghapel y Tabernacl ar 11 Mehefin. Chwaraewyd rhyw ddeuddeg o ganeuon gwych, a chafodd y gynulleidfa hefyd bleser wrth wrando ar lais swynol Emyr Myers o Ystalyfera yn canu sawl cân boblogaidd. Y cyfeilydd oedd organydd y Tabernacl, sef Christopher Lewis. Roedd y cyngerdd wedi ei drefnu gan Clwb Rotari Cwm Tawe er mwyn codi elw i achosion lleol. Yn ystod y gyngerdd trosglwyddodd Bill Lord, Cadeirydd y Clwb Rotari siec syweddol i arweinydd y band i gyfrannu tuag at gostau mawr cynnal y band. Diolchodd llywydd y Band, Mr Anthony Jones, am y rhodd garedig hon a dywedodd ychydig am hanes y band. Roedd pawb wedi eu diddanu'n llwyr ac wedi mwynhau cerddoriaeth o'r safon uchaf.

CD NEWYDD

Ar hyn o bryd mae cyn aelod yn y Tabernacl, sef Lee Walton, yn brysur yn cynhyrchu cryno-ddisg newydd o'i waith ei hun. Mae Lee yn byw yn Llundain ar hyn o bryd, ac mae'n gyfansoddwr, pianydd ac organydd o fri. Mae'r CD newydd hon yn cael ei gynhyrchu yn Fieldgate Studios yng Nghaerdydd. Mae Lee yn cael cymorth Ffion Wyn Davis o Gaerdydd ar y sacsoffon a Chôr Meibion Cymraeg sydd eto i'w enwi. Enw'r CD fydd 'The Journey Home' a bydd rhywfaint o sôn am ei hen gartref yng Nghwm Tawe yn rhan o'r cynnwys. Bydd rhai o'r caneuon yn Gymraeg a rhan fwyaf y caneuon wedi eu cyfansoddi gan Lee. Edrychwn ymlaen i glywed y ddisg newydd wedi iddi gael ei rhyddhau. Yn y cyfamser, medrwn

wrando ar ychydig o waith Lee ar ei wefan, sef Michaelleewalton.com a gweld mwy o Ffion ar ffionwysax.com

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i'r gwirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser i gefnogi gwaith 'Y Pantri' a leolir yn festri'r Tabernacl. Maent wedi derbyn tystysgrif oddi wrth fudiad 'Gwirfoddoli Cymru' am eu cyfraniad i'r achos arbennig hwn. Mae'r Pantri yn dal i edrych am fwy o wirfoddolwyr a byddant yn falch i glywed oddi wrth unrhywun sydd â diddordeb i ymuno â nhw.



Merched y Wawr Pontardawe yn y Te prynhawn Rhanbarthol. Gweler newyddion yr Alltwn.

NEWYDDION SOAR

GŴYL HENADURIAETH MORGANNWG LLUNDAIN

Ar Fehefin 19eg aeth nifer o'n haelodau a phlant yr Ysgol Sul gydag Andras ein Gweinidog i'r Wyl a gynhaliwyd eleni yng Nghanolfan Sain Dunwyd, Coleg yr Iwerydd - lleoliad newydd i ni eleni ar lan y môr mewn cefndir gwledig hardd a'r adeilad yn addas iawn ar gyfer yr Wyl. Thema'r Wyl oedd Cymuned. Croesawyd ni gan y Parch. Evan Morgan, Gweinidog Salem Canton - llywydd y pwyllgor trefnu ac arweinydd y gwasanaeth agoriadol. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr pob dosbarth a phlant pob Ysgol Sul hefyd. Profodd y Parch Evan Morgan ei allu i ddifyrru a dysgu'r plant yn Sul y Beibl yn Ionawr, a bu'r un mor lwyddiannus y tro hwn wrth ddangos iddynt pa mor debyg yw pawb i'w gilydd er eu gwahaniaethau arwyenbol.

Wedi'r awr ginio fe ddifyrrwyd y plant gan y bardd Aneirin Karadog (cyn-ddisgybl Ysgol Sul Soar) a Mr. Phormula, tra bod y Prifardd Mererid Hopwood yn annerch yr oedolion. Bu grwpiau trafod wedyn yn trafod cwestiynau a godwyd ganddi am natur cymuned a chymdeithas. Daeth pawb ynghyd wedyn i ganu hoff emynau cyn gorffen a ffarwelio am 3 o'r gloch. Profiad hyfryd. Diolch i'r plant am ddysgu eu gwaith - Erin, Dewi, Angharad, Anest, Alaw, Efa a Lowri ac i'r tadau a ddaeth er mai Sul y Tadau ydoedd.

CWRDD CENHADOL CHWIORYDD DOSBARTH TAWE NEDD

Yn Tabernacl Resolfen roedd cyfarfod yr Haf eleni. Y siaradwr gwadd oedd Sioned Williams. Cawsom sgwrs ddiddorol a brwdfrydig ganddi wrth olrhain effaith ei gwreiddiau yn Rhymni ac Ebenezer Twyn Carno ar ei chredo crefyddol, gwleidyddol, gwladgarol a chymdeithasol yn ystod ei gyrfa. Soniodd yn bennaf am fenter newydd Tŷ'r Gwrhyd, sy'n ganolfan iaith ar gyfer trigolion Nedd Port Talbot yn ogystal â Chwm Tawe. Diolchodd y llywydd iddi ac i Mrs Irene deLloyd am drefnu'r cyfarfod ac i chwiorydd Tabernacl am eu croeso ac am y te blasus wedi'r oedfa.

RHYDYFRO

SARON

17 Y Parchedig E John Roberts
24 Y Parchedig Illtyd Protheroe
31 Breian a Merrill Thomas

GWELLHAD

Dymunwn wellhad buan i Myra Richards, Travellers gynt, sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol ar ôl torri ei chlun wrth gwmpo yn ei chartef. Mae yn awr yn ysbyty Nedd a Port Talbot. Hefyd mae Pamela Davies yn gwella wedi torri ei braich wrth gwmpo yn yr ardd. Gobeithio erbyn i chi ddarllen hwn y bydd Arthur Bryn yn ôl yn y fflat ar ôl tua wyth wythnos yn yr ysbyty. Hefyd yn yr ward ag Arthur Bryn mae Elfed Thomas o'r Allt-wen, tad i'n postman Brian. Mae Elfed yn hoff iawn o siarad am Saron lle'r oedd ei ewythr, y diweddar Arthur Thomas, yn arfer chwarae'r organ. Un o Gwmllynfell ydyw yn wreiddol, a chofia ddod dros y Gwrhyd i bob eisteddfod yn Saron.

CAPEL Y BARAN

Ar Sul cyntaf Mehefin cawsom fendith o dan arweiniad y Prifardd Einir Jones. Amheuthun bob amser yw gwranddo pregeth gan un sy'n gallu dweud fel yr Apostol Paul "Mi wn i bwy y credais". Pwysleisiodd bwysigrwydd adnabod yr Iesu fel y ddau oedd yn cerdded wedi'r croeshoelio o Jerwsalem i Emaus. Fe ymunodd Iesu a cherdded gyda hwy, er nad oeddynt wedi ei adnabod. Oherwydd ei bod yn nosi pwyswyd arno i aros gyda nhw, ond dros swper wrth i'r Iesu fendithio a thorri'r bara "Agorwyd eu llygaid hwy ac adnabuasant ef". Un sydd wedi dal yr eiliad ryfeddol honno yw'r arlunydd Caravaggio yn ei lun trawiadol 'Swper yn Emaus'. Mae'r arlunydd fel petai wedi rhewi'r wyrth mewn amser fel y gallwn ni hefyd brofi'r un wefr a deimlodd y ddau ddisgybl wrth edrych ar y darlun. Mor wir yr idiom Saesneg fod "llun werth mil o eiriau".

Teimlodd yr emynydd Ann Griffiths yr un wefr hefyd wrth adnabod Iesu:

Yn yr adnabyddiaeth yma
mae uchel drem yn dod i lawr,
dyn yn fach, yn wael, yn ffaiidd,
Dw'n oruchel ac yn fawr;
Crist yn ei gyfryngol swyddau,
gwerthfawr anhepgorol yw,
yr enaid euog yn yr olwg,
a'i gogonedda megis Duw.

Diolch i'r gennad am ein tywys i adnabod "Y gwir a'r bywiol Dduw".

Darlith Flynyddol y Baran

Bu'n darlith flynyddol unwaith eto yn llwyddiant mawr. Cawsom ddarlith ddiddorol a chofiadwy gan yr actores amryddawn Rhian Morgan. Soniodd am ei dyddiau cynnar a'r dylanwadau a ddechreuodd 'Ar ben stôl' ar yr aelwyd ddiwylliedig y cafodd ei chwaer a hithau eu codi arni.

Mae gan Rhian y ddawn brin o allu ymgolli yn llwyr yn y cymeriad y mae'n portreadu. Cofiwn am ei chyfraniad fel gwraig y dihiryn Dic Deryn, yn Pobol y Cwm; cofiwn Rhian hefyd yn serennu yng nghampwaith y diweddar Dafydd Rowlands 'Licyris Alsorts' a bu'n cydweithio â'r enwog Syr Anthony Hopkins yn ffilm enwog 'The Silence of the Lambs'. Enillodd hefyd, a hynny yn deilwng iawn, Wobr Bafta Cymru am ei phortread o'r athrawes ddaearyddiaeth Gwen Lloyd yn y gyfres 'Gwaith Cartref'. Mawr oedd ein baint o gael gwranddo ar ddarlithydd a oedd yn siarad â ni o'i chalon. Diolch yn fawr iawn i Rhian am roi o'i hamser prin i ddod i'r Baran a rhannu â ni ei phrofiadau fel actores. Dymunwn bob llwyddiant iddi i'r

dyfodol. Cawsom y wledd arferol o luniaeth a baratowyd gan gyfeillion a gwragedd yr achos a diolch iddynt am eu cymorth a'u haelioni arferol i'r gynulleidfa o tua deg a thrigain; braf oedd y cymdeithasu ar ddiwedd y noson. Diolch arbennig i'r ffyddloniaid a fentrodd i ben y mynydd ar noswaith ddiflas anymunol; mae eu teyrngarwch i'r ddarlith yn cael ei werthfawrogi yn fawr iawn.



Eifion Walters yn croesawu Rhian Morgan

Bydd oedfa mis Awst o dan ofal y brawd Eric Francis, mis Medi y cyrddau diolchgarwch o dan arweiniad y Parchedig Meirion Evans, a mis Tachwedd y Parchedig Ieuan Davies. Bydd pob oedfa am 2.30 p.m. ar Sul cynta'r mis, a chroeso cynnes iawn i bawb.

FELINDRE

NEBO

OEDFAON MIS GORFFENNAF 10.30 Y BORE; YSGOL SUL 2.30 Y PRYNHAWN

- 17 Y Brawd D.C. Davies
- 24 Y Brawd Eric Francis
- 31 Y Chwaer Catrin Roberts

OEDFAON MIS AWST 10.30 Y BORE; YSGOL SUL 2.30 Y PRYNHAWN

- 7 Dim Oedfa
- 14 Y Parchedig Owen W. Pugh: Oedfa Gymun
- 21 Y Parchedig Gerald Jones
- 28 Y Parchedig Owen W. Pugh

YSBYTY

Bu un o ffyddloniaid Nebo yn dra isel ei hysbryd am dipyn o amser, ond ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Treforys mae Myra Mainwaring wedi cryfhau a bywiocau, ac yn ôl yn ei lle priodol yn y capel.

Mae un arall o ffyddloniaid Nebo, sef Mary Howells, wedi cael triniaeth ar ei llygaid ac yn medru gyrru i'r capel unwaith yn rhagor drwy gael cymorth gan ei merch Sharon.

Hefyd, mae un o blant ffyddlon yr Ysgol Sul yn cael triniaeth yn Ysbyty Treforys, sef Bethan Davies. Mae Bethan yn mynychu Ysgol Bryntawe ac yn mwynhau dod i'r Ysgol Sul, gan gymryd rhan yn y gwasanaethau crefyddol a cherddorol. Roedd Bethan yn canu yn yng nghôr Bryntawe yn Eisteddfod yr Urdd yn Y Fflint, ac fe gawsant y drydedd wobwr. Dymunwn wellhad i'r tair ohonynt.

LLONGYFARCHIADAU

Carwn longyfarch Richard a Heulwen Gill ar ddod yn Dadcu a Mamgu i Efan Douglas, baban newydd i'r aelwyd ym Mhorthcawl. Gobeithiwn ei weld yn dod gyda'i famgu i Nebo

ryw fore Sul.

Fel y nodwyd yn gynt, roedd tair merch arall yn cystadlu yn yr un côr gyda Bethan ac yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Gynradd Felindre, ac hefyd yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Sul Nebo. Y pedair merch dalentog oedd Nansi Eccott, Bronwen ac Anwen Morgan a Bethan Davies.

Roedd yn daith hir i fyny i'r Fflint ond yn brofiad mawr iddynt, yn eisin ar y gacen o gael ennill y drydedd wobwr. Gwell lwc y tro nesaf i'r sawl na chawsant lwyfan; mae'n rhaid i rai gollu hefyd. Cawsant ail hefyd mewn cyflwyniad dramatig 'Hwre'.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Noah Rees Miles a oedd wedi cyrraedd oedran teg yn 97 oed ac yn byw yn Heol-y-Garn, Garnswllt. Cydymdeimlwn â Nansi ei briod, a Laura, Delyth ac Eiry y plant.

Roedd hefyd yn gefnder i ddau o aelodau Nebo, sef Eirwyn Jones ac Ann Baber.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar David Duncan Jones, mab y diweddar Dai (Twyn) a Geraldine. Bu Duncan yn byw ym Mwlich-y-Gwin, Felindre rai blynyddoedd yn ôl. Brawd cariadus Isobel a Lisette, a chymar annwyl Paula, roedd hefyd yn nai i Sal a Rowena Miles. Mae'r hiraeth yn fawr ac yntau ond yn 57oed.

DINASYDDION HŶN / CYMRY BYWIOG

MAI 3

Cafwyd prynhawn diddorol yng nghwmni Adrian Bowen, lle roedd yn siarad am 'Wenyn' ac roedd wedi dod â mêl i'w werthu o'i gynnyrch ei hyn.

MAI 17

Canon John Walters oedd y siaradwr gwadd, ac roedd yn hyfyd ei weld yn ôl yn yr ardal ac yntau erbyn hyn yn byw yn Abertawe. Roedd yn siarad am 'Holi days'.

MAI 31

Y chwaer Elizabeth Wake drefnodd yr adloniant gyda'r 'Baywood Bells' ar y testun 'Song and Dance'. Roedd eu gwisgoedd yn lliwgar dros ben wedi cael ei gwinio gan y pedair chwaer.

Diolch hefyd i Bob am lenwi bwllch gyda'r gitâr ac i Moli a Brian Evans am roi o'u talent i uno yn y dawnsio.

MEHEFIN 3

Roedd y 'Cymry Bywiog' yn cyfarfod yn y neuadd gydag Ann Evans yn y gadair ac Yvonne Williams yn gwneud y rhan arweiniol, Cafwyd trafodaeth wedyn cyn cael lluniaeth hyfryd gan y chwiorydd .

MEHEFIN 14

Dangoswyd sleidiau gwych gan yr ymwelydd ar 'Keldra Plantation'.

CLYDACH

BETHANIA

Mae achos y Bedyddwyr yng Nghlydach yn hen iawn. Mae carreg ar dalcen tŷ yn Heol Bethania yn cofnodi sefydlu 'Capel y Cwar' yn 1795 fel cangen o Salem, Rhydypanyd. Adeiladwyd Bethania tua 1844 a Chalfaria yn 1868 mewn man oedd yn agosach i ganol y pentref. Ailagorwyd Bethania yn eglwys Saesneg yn 1958 wedi i weinidog Calfaria



ar y pryd, y Parchedig Hubert Matthews sefydlu Ysgol Sul Saesneg yno ym 1948.

Lleihau a gwrthgilio wnaeth yr aelodau, a daethpwyd i'r penderfyniad anodd i gau a gwerthu'r adeilad. Mae gweddill yr aelodau yn dal i gyfarfod yng Nghalfaria ar brynhawn Sul. Dosbarthwyd nifer o'r creiriau ymysg aelodau a chyfeillion, ac i'r ferch-eglwys Calfaria. Bydd yr adeilad a'r festri yn cael eu gwerthu ond cedwir y fynwent helaeth.

DATHLU'R CANT

Llongyfarchiadau i Gwyneth George, mam Meinir ar ddatlu ei phenblwydd yn gant oed ddechrau mis Gorffennaf.

MERCHED Y WAWR

Bu nifer o'r aelodau yn y Te Prynhawn a gynhaliwyd yn Neuadd Dilwyn ym Mhenlle'r gaer. Aeth rhai ohonom i gerdded ym mharc Penlle'r gaer. Paratowyd y te gan ganghennau Gorseinon a Phontarddulais. Ar ôl y te blasus, cynhaliwyd Ocsiwn Fud a rhwng y cyfan fe godwyd £1,000, a fydd yn werthfawr iawn ar gyfer y tymor nesaf pan fyddwn fel Mudiad yn dathlu'r hanner cant.



Cynhaliwyd cyfarfod ym Mehefin i baratoi ar gyfer y tymor nesaf. Cafwyd nifer o syniadau a gobeithir dathlu yn y gangen yn ogytal ag yn Rhanbarthol a Chenedlaethol fod y Mudiad yn hanner cant. Diolchwyd i bawb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, yn arbennig i Brenda fel llywydd, ac Elaine Waghorn a June Griffiths fel trysoryddion. Y Swyddogion am y flwyddyn nesaf fydd Brenda Evans - hi oedd llywydd cyntaf Cangen Clydach yn 1972. Is lywydd : Elaine Waghorn. Trysorydd: Heulwen Morgan; Ysgrifennydd cymdeithasol: Mair Williams ac Ysgrifennydd Cyffrediol: Annette Hughes.

ORDEINIO FICER A CHURADON

Yn ddiweddar mewn gwasanaeth arbennig yn y Gadeirlan yn Aberhonddu gan yr Esgob John ordeiniwyd Dorothy Lewis yn Ficer a Hywel Griffiths a David Martin yn guradon. Rydym yn gyfarwydd â dau ohonynt ond erbyn hyn mae David Martin wedi dod i fyw i'r ficerdy o Lanfair ym Muallt. Byddant yn gwasanaethu yn ardal Cwm Tawe sydd o dan ofal y Parchedig Green.

Pob dymuniad da iddynt. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair, Clydach pan wasanaethodd y Parchedig Dorothy Lewis ei chymun cyntaf. Pregethwyd gan y Parchedig Tim Hewitt, cyn-ficer yr eglwys.



CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch i bawb am eu cyfraniadau a'u gwaith wrth gasglu adeg wythnos Cymorth Cristnogol. Ar ôl y Daith Gerdded, hyd yn hyn mae'r swm yn £2,500. Diolch i'r Dr Alan Cram am wneud y trefniadau.

PWYLLGOR CLYDACH YMCHWIL CANCR

Cynhaliwyd te mefus llwyddiannus iawn ym mis Mehefin yn y Neuadd Gymuned gydag adloniant gan Cwmtawe Strings. Codwyd £700 tuag at yr elusen.

YMDDEOLIAD Y PARCHEDIG PAM CRAM

Yn ystod mis Gorffennaf bydd y Parchedig Pam Cram yn ymddeol o'i dyletswyddau fel Gweinidog ar Eglwys Fethodistaidd Clydach. Ganwyd Pam yn Suffolk a bu yn Newcastle upon Tyne, Norwy a Chaerwrangon cyn dod i Gymru. Mae yng Nghymru ers ugain mlynedd ac wedi meistrolï'r Gymraeg yn ardderchog. Mae yng Nghlydach ers y flwyddyn 2000. Bu'n Swyddog Ecwmenaidd rhwng 1997 a 2013, yn Llywydd Eglwys Rhyddion Cymru rhwng 2004 a 2007. Mae'n weithgar iawn yn Nhŷ Croeso ac yn gynrychiolydd dros Fasnach Deg yn yr ardal.



Cawn gyfle mewn oedfa arbennig ym mis Gorffennaf i ddiolch iddi. Nid yw'n symud o'r pentref ond dymunwn yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

CAPEL Y NANT

YMWELWYR O FADAGASCAR



Yn ddiweddar arweinwyd gwasanaethau gan ein harweinydd Robat Powell a'r Parchedigion John Walters, Ryan Thomas, Gareth Morgan Jones a Mrs Einir Jones, ond doedd dim yn debyg i'r cyffro a'r afiaith a welwyd yng nghwmni'r Grŵp Cristnogol Ny Ako o Fadagascar. Maent ar ymweliad ag Ewrop bob dwy flynedd a baint i ni oedd eu croesawu i Glydach. Mae nifer o genhadon yn gweithio ym Mhen-rhys gyda Sharon Rees o'r Allt-wen ac mae'r ddolen rhwng y wlad a Chymru yn un gref iawn. Ym 2018 byddwn yn dathlu daucanmlwyddiant y cenhadon cyntaf a aeth o Gymru i Fadagascar.

CYNGERDD

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf casglwyd dros dair mil o bunnoedd i ddwy elusen o'n dewis. Tŷ Croeso a Peace Direct fydd yn elwa o hynny. Mae'r casgliad rhydd i gyd yn mynd tuag at waith elusennol. Mae'r casgliadau hyn ar wahân i gasgliadau eraill fel Cymorth Cristnogol ac ati.

Ar Orffennaf 23 edrychwn ymlaen i gyngerdd Seiniau Soniarus Seraffim a Samson yng nghwmni'r soprano Olwen

Turchetta, Vere Smyth ar y trwmped a Fiona Gannon ar y piano a'r organ. Rydym yn ddiolchgar iddynt am rannu o'u doniau â ni yng Nghlydach.

Bydd y gyngerdd yn dechrau am 6.30, y pris mynediad fydd £5, a'r elw i Gymdeithas Alzheimer's ac Apêl Feddygol Bhopal.

CHWAEROLIAETH

Cynhaliwyd te mefus llwyddiannus iawn gan godi £350 i Mind, elusen afiechyd meddwl.



AR WELLHAD

Da clywed bod Aurwel Morgan, un o ddosbarthwyr y *Llais* ar wellhad. Dymunwn yn dda iddo.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau ar enedigaeth wyres i Dewi a Sarah Harris, merch i Anell. Ganwyd merch hefyd i Rhiannon ac Aled, sef Cadi Haf - wyres i Dewi ac Annette. Llongyfarchiadau hefyd i Sali Wyn a Llŷr ap Islwyn ar enedigaeth Harri Rhys yn Awstralia bell, ail blentyn i Luned.

DYMUNIADAU GORAU

Ar ddiwedd tymor yr haf bydd Pennaeth Ysgol Gymraeg Gellionnen, Mrs Delyth Mainwaring yn ymddeol o'i swydd. Dymunwn yn dda iddi a diolchwn am ei gwaith gyda'r ysgol ac yn y gymuned.

CRAIG CEFN PARC

PENBLWYDD HAPUS

Llongyfarchiadau i Jean John (Elim) ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 ym mis Mai. Mae Jean yn wraig i'r diweddar Les, yn famgu ac yn hen-famgu. Mae'n parhau i fod yn aelod ffyddlon a gweithgar yn Elim, ac yn cefnogi ni yma ym Mhantycrwyys ar bob achlysur. Roedd dathlu teuluol yn gyntaf, ac ar y Sul canlynol cynhaliwyd parti yn Festri Elim i nodi'r penblwydd arbennig hwn. Fel eglwys a chymuned dymunwn bob bendith iddi i'r dyfodol. Ymlaen i'r cant!



DATHLU SHAKESPEARE

Llongyfarchiadau i Bethan, wyres Jean Bowen, ar ennill dau docyn i fod yn rhan o gynulleidfa rhaglen fyw Radio 2 Chris Evans ar Fai 27. Roedd wedi ymateb i alwad am ysgrifennu stori fer, 500 o eiriau fel rhan o ddathliadau geni Shakespeare. Roedd y sioe yn cael ei recordio yn Theatr y Globe ei hun. Profiad gwych yn wir.

BRYN FÔN



Am y tro cyntaf erioed cynhaliwyd cyngerdd awyr agored yn y New Inn, Pont y Lôn, Craig Cefn Parc nos Sadwrn, Gorffennaf 9. Bu disgwyl eiddgar am ymweliad Bryn Fôn a'r Band â'r ardal.

Siomedig oedd y dorf a by'n arllwys y glaw. Serch hynny cafwyd noson i'w chofio.

Dafydd Iwan fydd yn ein diddanu y flwyddyn nesaf yn yr un lle. Gobeithiwn am dywydd gwell.

TREBANNWS

YSGOL TREBANNWS

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr urdd eleni:

Esther Harper (Blwyddyn 2): Unawd Blwyddyn 2 - Cyntaf yn yr Eisteddfod Gylch, Cyntaf yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg, ac wedyn mynd ymlaen i'r Eisteddfod yn y Fflint I gynrychioli'r sir.

- Mabli Lloyd (Blwyddyn 1): Gwaith Creadigol - Cyntaf yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg
- Lillia Jones (Blwyddyn 1): Gwaith Lluniadu - Ail yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg
- Dafydd Hyett (Blwyddyn 5): Gwaith Lluniadu - Cyntaf yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg
- Garin Evans (Blwyddyn 5): Gwaith Lluniadu - Trydydd yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg

BABI NEWYDD

Croeso i Erin Gwen Dora Knox, merch fach i Bethan (gynt Bevan) ac Edward Knox, chwaer fach newydd i Tomos ac wyres gyntaf i Margaret ac Edward Bevan. Llongyfarchiadau i'r teulu cyfan.

MAER CYNGOR TREF PONTARDAWE

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Sir Rebeca Phillips ar gael ei hethol yn Faer Cyngor Tref Pontardawe a'r Cylch am y flwyddyn i ddod. Mae Rebeca yn Gyngorydd Cymunedol yn Nhrebannws. Dymuniadau gorau iddi yn y swydd.

RADIO 2 -STORI FER

Wrth ymateb i gystadleuaeth am ysgrifennu stori fer 500 o eiriau er cof am Shakespeare ar sioe foreol Chris Evans ar Radio 2, enillodd Bethan Bowen, 8 oed o'r Bont-faen ddau docyn i weld y rhaglen yn cael ei recordio yn fyw. Bu'n rhaid i Bethan ynghyd â'i mam Faye a'r plant llwyddiannus eraill o'r Deyrnas Unedig gyrraedd Theatr y Globe yn Llundain erbyn

6.30 y bore. Darllenwyd y storiâu buddugol yn uchel gan actorion proffesiynol. Roedd yn brofiad bythgofiadwy. Mae Geraint tad Bethan yn hanu o Drebanws ac mae ei mamgu Jean Bowen yn byw ar Heol y Graig. Llongyfarchiadau i Bethan ar gamp mor neilltuol.



CYDYMDEIMLAD

Trist oedd clywed am farwolaeth Elwyn James yn ystod yr wythnosau diwethaf, gŵr y diweddar Eirianwen a thad Euryl. Yn enedigol o Drebanws, bu Elwyn yn aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Gosen ar hyd ei oes. Er wedi ymgartrefu yn Aberdâr ers rhai blynyddoedd roedd Elwyn ac Eirianwen yn mynychu cyfarfodydd Gosen yn rheolaidd cyn i afiechyd eu rhwystro. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys ag Euryl, ei gŵr lan, eu teulu a'r teulu estynedig yn eu galar.

Y DDRAMA YN ABERTAWE: CAIS AM WYBODAETH

Mae Alun Jones, o Landdona Ynys Môn, yn casglu gwybodaeth am y ddrama Gymraeg yn Abertawe.

Mae e am gael gwybodaeth am Mair Thomas, efallai o Sgeti. Yn y llun isod (1967) o ddrama *Antigone* (cyfieithiad W. J. Gruffydd) mae hi'n chwarae rhan Ismene, chwaer Antigone (Annest Wiliam), a Brinley Jenkins yn chwarae rhan Creon. Oes rhywun yn gwybod pwy yw hi?

Yn yr ail lun (ar y dde) o *Pan Laniodd y Ffrancod* (drama John Griffiths, BBC, oedd yn byw yn Eaton Crescent, yr Uplands) mae Alun Jones am wybod pwy yw'r ddwy ferch bob ochr i Eirlys Emmanuel ym mlaen y llun.



**Cysylltwch ag Alun Jones ar 01248 810620;
Bwlch, Llanddona, Ynys Môn, LL58 8UB**

LLYTHYR

Roeddwn wedi pendronni tipyn ynglyn â'r Refferendwm, a'i oblygiadau i'r genhedlaeth ifanc. Roedd y gwleidyddion wedi dweud mai canlyniad unwaith ac am byth fyddai hwn, ac felly roeddwn yn meddwl pa hawl oedd gyda ni, y genhedlaeth hyn i benderfynu pa hawl oedd gyda ni i benderfynu tynged a dyfodol ein hieuenctid, a ninnau wedi ymadael â'r ddaear am le gwell. Felly penderfynu wnes i AROS gyda'r sefyllfa cyn Mehefin 23 er mwyn sicrhau dyfodol ein hieuenctid. Felly siomedig tu hwnt i eiriau y teimlais pan gefnodd y bobl, ac yn enwedig Cymru sydd wedi derbyn mwy o ran budd-daliadau i'r cymunedau tlotaf. Pa synnwyr cyffredin oedd tu ol i ymateb mor afresymol.

Tybed a all y rhai o ddarllenwyr y Llais a bleidleisiodd am adael yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'n siwr fod nifer ohonoch wedi gwneud, ddatgan pam y pleidleisio nhw felly. Ai oherwydd Mewnfudo? Oes arwyddion o broblemau yng Nghwmtawe a'r cyffiniau oherwydd y Mewnfudwyr? Dwi i ddim yn credu hynny o gwbl. Mae'n broblem mewn rhannau o Loegr, ond Cymru? Wrth gwrs, os ydych yn darllen papurau fel y Sun, y Daily Mail, y Daily Express, a'r Daily Telegraph, dyna oedd y broblem fawr, ond pwy sy'n rheoli'r papurau hynny - Rupert Murdoch, a'i farn ef sydd wedi cyflyru meddyliau pobl sy'n darllen ei bapurau ef. Rhagfarn noeth, a ble byddai ein hysbytai heb wasanaeth y mewnfudwyr? Mewn trafferthion mawr. Cefais fy siomi 'n ddirfawr gyda'r canlyniad lleol.

Os nad hyn oedd y rheswm, ai oherwydd mai'r Prif Weinidog, David Cameron, oedd prif lefarydd y Garfan AROS, a bod y Cymry Sosialaidd am roi crasfa iddo. Fel y dywedodd gwr ifanc yng Nglyn Ebwy sydd wedi fwyaf oddiwrth yr Undeb Ewropeaidd "We gave Cameron a good kicking!" Ond ble roedd Jeremy Corbyn, yr Arweinydd Llafur i roi arweiniad i'w bobol? Mae'n gwbl amlwg wrth edrych ar y canlyniadau lleol - ardaloedd sydd wedi bod yn ardaloedd Llafur ar hyd y blynyddoedd, fod y Blaid Lafur wedi cymryd eu pobl yn ganiataol, gan adael iddynt fod yn agored i syniadau celwyddog, Toriaidd celwyddog pobol fel Nigel Farage a'i debyg.

Wel, mae'r bleidlais wedi digwydd, ac mae Boris Johnson, ein Hachubydd posib, yn ffyddiog y cawn fynediad i'r Farchnad Sengl sy'n hanfodol i'n llwyddiant economaidd - pa mor naïf y gall rhywun fod? Dyw arweinwyr y gwleidydd Ewropeaidd ddim yn mynd i faddau nac anghofio mor rhywydd. Gobeithio na fydd y rhai a gefnogodd y garfan ALLAN yn mynd i dyfaru am y modd y pleidleisio nhw ar Fehefin 23.

John H. Evans (Clydach)



Yn y cast (rhes ôl) mae Degwel Owen, Gareth Morgan (tad Rhian Morgan), Glyn Ellis, Ceri Francis, Dafydd Idris Edwards (y baledwr), Cyril Rees, Tudor Walters, Sonia Jones, Gwyn Evans, Kate Jones, Neville Thomas, William Thomas, Dafydd Rowlands.

Rhes ganol: Martin Griffiths, George David, Lluchwr Rees, Ceinwen Smith Owen (y ddau yn eistedd) mam-gu Garry Owen, Stan Emmanuel a Wil Rees (y ddau yn sefyll).

Rhes flaen: ?, Eirlys Emmanuel, ?, Mary Jones (chwaer Rachel Thomas). Diolch i Degwel Owen am y llun.

YSGOLION

YSGOL GYNRADD GYMRAEG PONTARDAWE

Bu'n gyfnod hynod brysur unwaith eto a dyma rai o'r uchafbwyntiau:



Cafodd Blwyddyn 4 lawer o hwyl yn Dan y Wenallt gyda'r disgyblion yn dal mamaliaid, cerdded i Dor y Foel ac adeiladu llochesi.

Daeth Ed Holden, yr arbenigwr *beat box* i'n diddanu a syfrdanwyd pawb gan ei ddawn.



Fel rhan o Daith y Siarter laith daeth Al Lewis a'i fand i'r ysgol i berfformio a hynny ar ôl cyfnod prysur yn perfformio yn Glastonbury a Tafwyl, Caerdydd.



Llongyfarchiadau i dîm athletau'r ysgol. Daethant yn ail yng nghystadleuaeth Mabolgampau Athletau'r Ysgolion Cymraeg.



Dymuno'n dda: Daeth blwyddyn ysgol arall i ben a rhaid ffarfwelio â Blwyddyn 6. Byddwn yn gweld eu heisiau'n fawr a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

Byddwn hefyd yn gweld eisiau eu hathro, sef Mr Rhys Griffiths sydd wedi ei benodi'n ddirprwy brifathro yn Ysgol Gwaun Cae Gurwen.

Gydag ymadawiad Mrs Meirwen Watts penodwyd Mrs Elin Wakeham yn ddirprwy brifathrawes yn ei lle. Dymuniadau gorau i'r ddwy yn eu swyddi newydd.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG Y WERN

GOLFF YR URDD

Mae wedi bod yn braf croesawu aelodau o'r Urdd i arwain sesiynau blas ar golff gyda ni. Cawsom gyfres o bedair gwers gyda'r cyfle i fynychu gŵyl ym Mhrifysgol Abertawe ar ddiwedd y cyfnod. Mae blwyddyn 3 wrth eu bodd yn cael hyfforddiant ac yn awyddus i ddysgu mwy.



PÊL DROED GYDA'R FENTER IAITH

Mae blynyddoedd 3, 4 a 5 wedi cyflawni cyfres o wersi wythnosol gyda Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot er mwyn dathlu cyfranogiad Cymru ym mhencampwriaeth Ewrop. Mae'r disgyblion wedi mwynhau'r profiad. Diolch yn fawr iawn am y cyfle, ac yn enwedig i Emyr a Siân am arwain a threfnu'r sesiynau.



CRICED MORGANNWG

Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i Gaerdydd yn ddiweddar er mwyn gwyllo gêm 50 pelawd rhwng Morgannwg a Swydd Middlesex. Roedd yn achlysur bendigedig yn cynnwys ymweliad â'r amgueddfa, cyfle i chwarae gêm fer ar gae Gerddi Soffia a chael cyfle i gyfarch y chwaraewyr wrth iddynt ail ymddangos ar ôl yr egwyl rhwng y batiad cyntaf a'r ail. Noson wych, diolch yn fawr i glwb Morgannwg.

CRIW CRAFF

Mae blwyddyn 6 wedi cael y cyfle i fynychu'r Criw Craff yn flynyddol, sef cyfle i ymweld â gorsafodd amrywiol i drafod diogelwch personol gan fentrau amrywiol gan gynnwys negeseuon am gwrth-fwlian a hiliaeth, Y Frigid Dàn, yr Heddlu a diogelwch ar y rheilffyrdd, ymysg pethau eraill. Diwrnod o weithgareddau llawn cyffro wedi ei fwynhau gan bob un.

SYRFFIO

Am yr wythfed mlynedd yn olynol mae disgyblion, cyn ddisgyblion a ffrindiau'r ysgol wedi bod yn mynychu sesiynau syrffio ar draeth Caswell gyda chwmni GSD. Mae perthynas



agos wedi datblygu rhwng yr ysgol a'r cwmni dros y blynyddoedd ac o ganlyniad darperir y sesiynau drwy gyfrwng y Gymraeg. Braf yw mynychu'r traeth yn wythnosol a chymdeithasu a derbyn hyfforddiant gyda Mali (cyn ddisgybl Ysgol Gŵyr) a Rhys (cyn ddisgybl

Ysgol y Strade) drwy ein mamiaith. Cafwyd dechreuad arbennig i'r gyfres o wersi syrffio eleni gyda'r haul yn gwenu arnom fel mae wedi gwneud ar bron bob achlysur ar draeth Penrhyn Gŵyr.

TESCO - YSTRADGYNLAIS

Aeth yr adran Iau ar ymweliadau â TESCO yn ddiweddar. Cawsom groeso cynnes iawn gan yr archfarchnad a threfnwyd llu o weithgareddau ar ein cyfer. Ar ôl eu cyflawni, codwyd ymwybyddiaeth y plant o ble daw bwydydd a sut maent yn cyrraedd ein plât – "O'r fferm i'r fforc".

YSGOL GYFUN YSTALYFERA

TANIO'R DDRAIG

Daeth 13 o ysgolion y sir ynghyd ar gyfer diwrnod Tanio'r Ddraig gyda Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot a Gwasanaeth Ieuencid yr Urdd yn Ystalyfera ddechrau Gorffennaf er mwyn hybu defnydd a balchder pobl ifanc yn yr iaith Gymraeg. Diwrnod arbennig o hwy!



MENTORIAID CYMAR

Diolch i dros 40 o ddisgyblion Blwyddyn 9 sydd wedi derbyn hyfforddiant i weithredu fel Mentoriaid Cymar ar gyfer Medi 2016. Pob lwc gyda'r gwaith!



LLYSGENNAD GEMAU CYMRU

Awen Lewis yw'r disgybl diweddaraf i lwyddo i gael ei dewis fel Llysgennad ar gyfer Gemau Cymru. Mae ei llwyddiant ym maes y Triathlon yn wych dros ben.



ZAC YN LES MISERABLES

Llongyfarchiadau i Zac, Blwyddyn 8, sydd wedi ei dderbyn fel aelod o gast *Les Miserables* gyda'r Performance Factory.

HWYLIE LLAWN!

Llongyfarchiadau Megan Escott, Blwyddyn 10, sydd wedi ei dewis i dreulio wythnos yn hwylio ar long Arennig gyda Gwasanaeth Ieuencid CNPT. Profiad anhygoel!



CYFWELD ALUN DAVIES AC

Cafodd Tom, Branwen a Cellan gyfle i gyfweld â Gweinidog Y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru, Alun Davies AC, ar radio cymunedol Tŷ'r Gwrhyd ar achlysur agoriad swyddogol y Ganolfan Gymraeg ym Mhontardawe.



CROESAWU WYNEBAU NEWYDD I DEULU YSTALYFERA

Yn ddiweddar, daeth disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion yr ardal i Ystalyfera er mwyn treulio'r dydd gyda'u dosbarthiadau newydd ym Mlwyddyn 7. Yn y llun mae cynrychiolwyr o'r 16 ysgol gynradd sy'n ymuno a ni. Croeso i'r teulu!



CEFNOGI CYMRU (A BEN!)

Cafodd disgyblion Ystalyfera gryn hwyl dros yr wythnosau diwethaf yn bloeddio eu cefnogaeth i dîm pêl droed Cymru. Llongyfarchiadau i'r tîm ar eu perfformiad arbennig.

YSTALYFERA YN CEFNOGI MORGANNWG

Cynhaliwyd taith yn ddiweddar i Stadiwm Swalec, Caerdydd er mwyn cefnogi a helpu Morgannwg i fuddugoliaeth haeddiannol yn erbyn Surrey.



ADEILAD NEWYDD ERBYN Y NADOLIG!

Mae'r gwaith o adeiladu'r gofod newydd ar gyfer yr ysgol yn parhau ar amser a daeth Arweinydd Cyngor CNPT, y Cyngorydd Ali Thomas OBE, i weld drosto'i hunan gynnydd y gwaith gwych.



Pererindod Capel yr Alltwen

Teithiodd aelodau Capel yr Allt-wen a Soar, Maes-yr-haf tua'r dwyrain ar hyd yr A465 i gyfeiriad blaenau Cwm Taf ddechrau Mehefin.

Wrth ymlwybro i fyny Cwm Nedd, 'yr harddaf o gymoedd y de', cawsom ein haddysgu am brif nodweddion daearyddol a hanesyddol yr ardal gan y cyn-brifathro a'r darlledwr Alun Wyn Bevan, aelod ac athro Ysgol Sul yn Soar, Maes-yr-haf, Castell-nedd. Yna trosglwyddwyd awenau'r tywysydd i ddwylo medrus y Parchedig Gareth Morgan Jones a fu'n sôn am gymeriadau cylch Merthyr Tudful.

ABER-FAN

A hithau'n 50 mlynedd ers trychineb Aber-fan rhaid oedd ymweld â'r pentref bach, bum milltir o Ferthyr. Dyma drychineb fwyaf ingol Maes Glo De Cymru. Ar 21 Hydref 1966, wedi cyfnod o law trwm, llithrodd rhan o domen lo a godwyd ar ochr y mynydd uwchben Aber-fan i'r dyffryn islaw.

Chwalwyd popeth a safai yn llwybr y mwd a'r llaca, gan gynnwys ffermdai Hafod Tanglws, rhesi o dai ac Ysgol Pant-glas. Lladdwyd 116 o blant ac 28 o oedolion yn y drychineb. Dyma'r lle mwyaf dwys-ingol yng Nghymru, a man a fu'n achos galar ledled y byd. Ni ellir deall hanes Cymru, yn enwedig rôl y diwydiant glo yn yr hanes hwnnw, heb sôn am Aber-fan. Mae'r torcalon yn real o hyd, fel y profwyd wrth ymweld â'r pentref a'r fynwent.

Yn nhawelwch yr ardd goffa fe'n sboreiddiwyd gan sylwadau ac atgofion Martin, dysgwr Cymraeg ac un o drigolion Aber-fan. Roedd yn bedair oed yn 1966 ac yn rhy ifanc i fynychu Ysgol Pant-glas. Adroddodd inni, o dan deimlad, yr hanesion dirdynnol a anghofiwyd gennym dan niwl y gorrffennol.

Fe'n harweiniwyd yn betrusgar i'r fynwent, yn uchel ar lethrau'r cwm, a thrwy gyd-ddigwyddiad cyfarfyddom â gwraig arall, Gaynor Madgwick (perthynas trwy briodas i Martin). Roedd hi, yn wyth oed, yn yr ysgol ynghyd â'i brawd a'i chwaer. Fe'i hachubwyd, er iddi dorri ei choes ond colodd ei brawd a'i chwaer yn y drychineb. Mae newydd ysgrifennu llyfr *Aberfan: Struggling out of the Darkness*, sy'n cofnodi ei hatgofion personol hithau ac eraill am y drychineb. Dirdynnol oedd gweld bwâu y beddau gwynion a'r arysgrifen yn cofnodi enwau'r plant bach a nifer ohonynt bellach yn cynnwys enwau eu rhieni.



CANOLFAN SOAR A CHEWRI MERTHYR

Tawel oedd y sgwrs wrth ddychwelyd i Ferthyr ac i Ganolfan Gymraeg Soar. Wedi cinio ysgafn cawsom gyfle i ymweld a'r hen gapel a chael hanes cewri'r dref gan y Parchedig Gareth Morgan Jones: Dic Penderyn, merthyr cyntaf y werin ddiwydiannol, a gwleidyddion megis Henry Richard, Keir Hardie ac S. O. Davies. Adroddodd Eiry Shopland, arweinydd y gân yn Soar, Maes-yr-haf, hanes rhyfeddol John Roberts (Ieuan Gwyllt) 1822-77: cerddor, golygydd a gweinidog a aned ger Aberystwyth. Roedd cyhoeddi *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* (Sol-ffa) ganddo yn 1864 yn garreg filltir yn natblygiad canu cynulleidfaol yng Nghymru a bu ei gasgliad o donau Sankey & Moody *Sw'n y Jiwibili*, 1874 yn hynod boblogaidd. Ei donau mwyaf adnabyddus yw 'Ardudwy', 'Esther', 'Liverpool' a 'Moab'. Bu am gyfnod yn weinidog yn Soar.



CHAPEL ROW A JOSEPH PARRY

Rhaid oedd ymweld â chartref y 'bachgen bach o Ferthyr'. Mae'r tŷ teras wedi ei droi'n fangre i glodfori ei orchestion. Aeth i'r pwll glo yn naw oed ac yn 1854 ymfudodd gyda'i deulu i'r UDA lle bu'n gweithio yng ngwaith dur Dannville, Pennsylvania. Astudiodd gerddoriaeth yn ei amser hamdden cyn dychwelyd yn Athro Cerddoriarth Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Roedd yn hynod boblogaidd fel beirniad ac arweinydd a chyfansoddodd lawer iawn o weithiau cerddorol megis yr opera 'Blodwen' a'r emyn-dôn 'Aberystwyth'. Ei dôn 'Myfanwy' yw'r enwocaf, siwr o fod.

Wedi diwrnod o ddysgu am ein gorffennol pell ac agos, llawn emosiwn, dychwelsom ar hyd ffordd wahanol i Gwm Tawe a chael pryd o fwyd blasus ger Cwm Senni.

Helynt Cadair Aberystwyth

Dyma'r drydedd ran o'r gyfres o ysgrifau ar Gwenallt gan Alan Llwyd. Y tro hwn mae'n son am Gwenallt a Thomas Jones, dau ysgolhaig o'r Allt-wen.

Ar ddechrau 1952 yr oedd Gwenallt dros ei ben a'i glustiau mewn helynt unwaith eto, helynt arall a oedd yn ymwneud â chadair – ond o fath gwahanol i Gadair Treorci ym 1928. Bu'r hyn a ddigwyddodd yn ddigon i beri iddo chwewi am weddill ei ddyddiau. Ym 1951 roedd T. H. Parry-Williams yn hwylio i ymdeol o'i swydd fel Athro yn yr Adran Gymraeg yn Aberystwyth, a rhaid oedd cael olynydd iddo. Roedd tri wedi eu gosod ar y rhestr fer ar gyfer y swydd: Gwenallt, Thomas Jones a Melville Richards o Brifysgol Lerpwl. Y ddau brif ymgeisydd am y swydd, fodd bynnag, oedd y ddau frodor o'r Allt-wen, Thomas Jones a Gwenallt, gan fod y ddau eisoes yn aelodau o staff yr Adran Gymraeg yn Aberystwyth.

Roedd Cadair wag Aberystwyth wedi ysgogi diddordeb mawr ymhlith ysgolheigion a llenorion Cymru. Yn ôl Mignedd yn rhifyn Mawrth 5, 1952, o'r *Faner*:

Yn awr, cyfyd amryw gwestiynau y dylid eu gwyntyllu ar goedd gwlad ynglŷn â'r swydd a'r penodiad. Sylwer i gychwyn pwy oedd aelodau'r Pwyllgor Dewis – y Prifathro Ifor L. Evans (yn y gadair), tri arbenigwr Cymraeg, sef Syr Ifor Williams, yr Athro Henry Lewis a'r Athro Idris Foster; a'r tri allanol oedd y Dr. Ifor Rees, Bow Street; Syr Idris Bell a'r Athro David Williams. Y mae'r tri arbenigwr Cymraeg yn ieithwyr ac yn Ganoloeswyr – os goddefir y term – a diau mai ieitheg yw eu pennaf diddordeb hwy. Fe'm temtir i ofyn: Onid oes gormod o ddysgu gramadeg ac ieitheg yn ein colegau cenedlaethol, a gormod o arbenigo ar bethau Celtaidd?

Roedd yr hyn a awgrymai Mignedd yn ddigon clir. Gan mai ieithegwyr, yn bennaf oll, oedd y tri aelod o'r Pwyllgor Dewis, yr oedd yn amlwg mai i ieithegwr arall y cynigid y swydd, ac fe roddai hynny ddewis o ddau i'r Pwyllgor – Thomas Jones neu Melville Richards. Gadawai hynny Gwenallt ar ei ben ei hun, yn ymgeisydd unig, ar wahân, heb y gobaith lleiaf ganddo o gael y swydd. Yn wir, fe wnaeth Mignedd fwy nag awgrymu hynny. Proffwydodd y byddai Cyngor y Coleg yn cyfarfod ar Fawrth 20, ac ni synnai ddeall 'mai enw Mr. Thomas Jones yn unig fydd yn mynd ger bron y Cyngor'.

Roedd *Y Faner* yn sicr wedi codi cynnen. Yn garn i'w ddadl o blaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ieitheg a llenyddiaeth yng ngholegau Cymru, dyfynnodd Mignedd yr hyn a ysgrifenasai Thomas Parry yn ei lyfr *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg 1900-1945*:

... y mae lle i ofni nad yw'r Brifysgol ond yn dechrau dod i ystyried astudio llenyddiaeth yn eang a rhyddfrydig fel peth cyfwerth ag astudio iaith ... a gofynnid gan y myfyrwyr ddysgu corff o ffeithiau am yr ieithoedd Celtaidd ac ieitheg gymharol. Gwelwyd ers tro nad yw cwrs o ddysgu ar gof fel hyn, heb ddim cyfle i'r rheswm na'r chwaeth, yn datblygu dim ar gymeriad myfyriwr nac yn dwyn i'r golwg unrhyw werthoedd sylfaenol, ac erbyn hyn fe roed lle i *hanes* llenyddiaeth o leiaf. Ond eto y mae tuedd i ystyried bod y sawl a ddatrys broblem ieithegol yn fwy dyn na'r sawl a ddehongla gyfnod mewn hanes neu agwedd ar lenyddiaeth.

'Credir yn ein colegau fod dawn yr ysgolhaig yn fwy gwerthfawr

na dawn y llenor creadigol, a rhoddir pwys mawr ar y ddawn i olrhain tarddiad geiriau,' meddai Mignedd drachefn, gan argymhell y dylid sefydlu Cadair Iaith a Chadair Llenyddiaeth yn Aberystwyth unwaith yn rhagor.

Anfonodd 'Pendas' lythyr ynghylch y swydd i'r *Western Mail*; fe'i cyhoeddwyd yn rhifyn Mawrth 15, 1952, o'r papur, ac roedd yr hyn a ddywedodd yn sarhad ar Gwenallt. Gan mai bryncyn ar fin Penparcau yw Pen Dinas, anodd osgoi'r argraff fod rhywun lleol, rhywun a adwaenai Gwenallt yn dda, yn ceisio gwneud drwg iddo. Pan oedd Gwenallt yn fyfyrwr yn y coleg yn Aberystwyth, fe geid dwy gadair a dau Athro yno, sef Cadair Llenyddiaeth T. Gwynn Jones a Chadair Iaith T. H. Parry-Williams. Nid oedd y trefniant hwnnw yn gwbl foddhaol nac yn llwyr effeithiol yn ôl 'Pendas', ac ar ben hynny, dim ond un dyn yng Nghymru a allai lenwi Cadair T. Gwynn Jones gynt, ac nid Gwenallt oedd hwnnw:

So far as the late T. Gwynn Jones himself is concerned, he was a sufficiently unique figure in Welsh letters to warrant the creation of a special chair. To-day there is no parallel, except possibly at Cardiff University College, where Mr. Saunders Lewis, now lecturer in Welsh literature, is a figure of unusual distinction.

Ddeuddydd yn ddiweddarach, gresynai'r *Western Mail* fod y swydd wag yn Aberystwyth wedi codi'r fath gynnwrf. Roedd y papur yn cydymdeimlo â'r coleg ac â'r ymgeiswyr, ac yn condemnio'r bobl hynny a oedd yn chwarae'r ymgeiswyr yn erbyn ei gilydd:

The Welsh Department at the University College of Wales has an enviable reputation, and we are sure that the academic body entrusted with the choice of the department's new head will choose wisely and well. Let us leave such affairs in the hands of those with a full understanding of the position. To turn the appointment of a professor into a public squabble is harmful to the dignity of the successful applicant, and will cause pain to those who will now be revealed as having failed to gain the chair.

Gofynnodd Gwenallt a Thomas Jones i Thomas Parry fod yn ganolwr iddynt, ac felly y bu. Thomas Jones, fodd bynnag, a gafodd y swydd, ac er na ddaliodd Gwenallt unrhyw ddig yn bersonol yn erbyn Thomas Jones, yn sicr fe ddaliodd ddig yn erbyn y pwyllgor dewis. Cytuno â'r penodiad a wnaeth Thomas Parry, er gwaethaf yr hyn a ddywedodd yn *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg 1900-1945*, ond teimlai hefyd y dylai Gwenallt gael rhyw fath o ddyrchafiad, pe bai ond i'w gysuro. Gofynnodd Thomas Parry i Ifor L. Evans, Prifathro Coleg Aberystwyth, ddyrchafu Gwenallt yn 'Ddarllenydd', ac ychwanegu rhyw ganpunt at ei gyflog, ac fe wnaed hynny.

Roedd Albert Davies, cyfaill mawr Gwenallt, wedi clywed nad oedd gobaith pelen eira yn nhes Awst gan Gwenallt o gael ei benodi i'r swydd. Ac yntau a'i wraig yn brysyr yn codi teulu ar y pryd, collodd Albert a Gwenallt gysylltiad â'i gilydd yn ystod ail hanner y 1940au. Ailgyfannwyd eu cyfeillgarwch am blwc ar ddiwedd y 1940au, ac fe gollwyd cysylltiad drachefn, hyd nes i Gwenallt adael i Albert wybod ym 1951 ei fod yn bwriadu mynd i weld ei chwaer Beth yng Nghastell-nedd, ac yr hoffai alw heibio i Albert a Molly ei wraig ar ei ffordd yno. Dyna pryd y dywedodd wrth Albert fod T. H. Parry-Williams yn ymdeol o'i swydd. Awgrymodd Albert y dylai Gwenallt gynnig amdani, ond rhaid bod Gwenallt ei hun wedi bwriadu ymgeisio am y swydd. Yng ngeiriau Albert ei hun, dyma'r hyn a ddigwyddodd:

Some months after Gwenallt's visit, a neighbour had recently returned from an Educational Conference at the Welsh Educational Office in London. We chatted over the garden wall and I mentioned the forthcoming vacancy of a Professorship in the Welsh Department in Aberystwyth. I mentioned Gwenallt as an ideal candidate and successor to [T. H. Parry-Williams]. The matter had obviously been discussed in the corridors of Whitehall, for he openly informed me that, "one thing is certain, Gwenallt will not be



Thomas Jones

appointed". I posed the question "Why?" and he replied. "It is rumoured that Gwenallt Jones was not a safe man". In the ensuing silence, my neighbour became somewhat embarrassed and said, "haven't I seen Gwenallt in your home?" "You are friends of course." It was too late to retract his information; the cat was out of the bag. The Establishment had already made their decision. I remarked that I would be writing to Gwenallt soon. When in March 1952, I had news that the Establishment had confirmed the appointment of Tom Jones, I recalled the words, "Gwenallt is not a safe man".

Hawdd deall pam y cafodd Gwenallt ei frifo a pham y teimlai iddo gael ei ddirfrio gan y penodiad. Ysgolhaig testunol ac ieithgol oedd Thomas Jones, a chyfyng, i raddau, oedd maes ei arbenigedd, sef rhyddiaith Gymraeg yr Oesoedd Canol, er bod ganddo ddiddordeb mewn meysydd eraill yn ogystal. Cyfyng oedd ei orwelion ysgolheigaidd er ei fod yn ysgolhaig ardderchog a thoreithiog oddi fewn i'w faes ef ei hun. Ar y llaw arall, roedd Gwenallt yn gyfarwydd â phob cyfnod llenyddol ac â phob ffurf ar lenyddiaeth Gymraeg. Ar un cyfnod roedd yn darlithio ar waith y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd. Roedd yn awdurdod ar ganu'r ddeunawfed ganrif ac yn arbenigwr ar lenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yn eang ei ddiddordeb a'i gyraeddiadau academaidd; roedd yn un o feirdd mwyaf yr ugeinfed ganrif, roedd yn ysgolhaig, yn feirniad llenyddol craff, yn feirniad eisteddfodol rhagorol, yn hanesydd llên penigamp ac yn llenor llwyddiannus yn gyffredinol. Cerddor un offeryn oedd Thomas Jones, er cymaint ei fedrusrwydd wrth ganu'r un offeryn hwnnw; cerddorfa lawn oedd Gwenallt, a gallai ganu pob offeryn yn y gerddorfa, rhai'n weddol a rhai'n wych. Roedd Thomas Jones ryw ddeng mlynedd yn iau nag ef, ac roedd Gwenallt wedi bod yn ddarlithydd yng Ngholeg Aberystwyth am chwe blynedd cyn penodi Thomas Jones yn ddarlithydd yno. Teimlai Gwenallt fod awdurdodau'r Coleg wedi ei sarhau a'i iselhau. Rhan enfawr o'r broblem oedd agwedd ei gydweithwyr tuag ato. 'Da y gwn pa mor bwysig yn ei olwg oedd ymchwil, fel cysail dysg yn gyffredinol, ac, o safbwynt

personol, fel ffordd o dewi'r 'nhw' na chredent ei fod yn ysgolhaig,' meddai Hywel Teifi Edwards am ei ewythr yn *Dathlu: Cynnyrch Llenyddol Dathliadau Chwarter-canmlwyddiant Sefydlu'r Academi Gymreig*, Golygydd: R. Gerallt Jones (1986). Cafodd gam a chafodd loes, ac nid anghofiodd yr anfrï na'r anaf odid unwaith.

Arllwysodd ei fol mewn llythyr at Kate Roberts ym 1952. Roedd yn siomedig iawn am na chafodd ei benodi i Gadair Gymraeg Aberystwyth. Byddai'n well, meddai, pe bai wedi rhoi'r gorau i farddoni ac ysgrifennu pwt o ddrama, ond ni fynnai fygu'r ddawn a roddodd Duw iddo er mwyn gwneud rhagor o ymchwil. Roedd gorweithio wedi andwyo'i iechyd. Rhoddodd y gorau i ysmegu a gwrthododd lawer o wahoddiadau, yn y gobaith y gallai gael ei iechyd yn ôl. Ond ni allai gelu ei ddieter, ac ymosododd yn gas ar rai o ysgolheigion pennaf a gwyr blaenllaw Cymru ar y pryd, gan gofio bod dau ohonynt, Ifor Williams a Henry Lewis, wedi sefyll yn gadarn yn erbyn yr ymgyrch i adfer ei swydd fel darlithydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru yn Abertawe i Saunders Lewis ar ôl helynt yr Ysgol Fomio:

Y mae'n hen bryd cael gwared ar rai pobl yng Nghymru, a'r pedwar cythraul mwyaf ohonynt yw'r Prifathro, Ifor Williams, Henry Lewis ac Ifan Ap ... nid yw Ifor Williams a Henry Lewis yn gwybod dim am lenyddiaeth ddiweddar Cymru. Nid ydynt wedi darllen yr un o'ch llyfrau chwi na'm llyfrau i. Ar ôl astudio'r Cynfeirdd y mae Ifor Williams yn darllen nofelau ditectif, ac ar ôl astudio ieitheg Geltaidd y mae Henry Lewis yn darllen llyfrau 'Cowboys'.

A dyna hanes yr ymgiprys rhwng y ddau ysgolhaig o'r Allt-wen am Gadair Gymraeg Aberystwyth ym 1952.

Diolch i Alan Llwyd am y dair ysgrif ar Gwenallt. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi ei lyfr cynhwysfawr ar un o feirdd mwyaf Cymru. Cynhelir y lawnsiad yn Nhŷ'r Gwrhyd yn yr Hydref.

DIGWYDDIADUR CWM TAWE

23 GORFFENAF: SEINIAU SONIARUS SERAFFIM A SAMSON

Cynhelir y cyngerdd hwn yng Nghapel y Nant Clydach am 6.30y.h. gyda Olwen Turchetta (Soprano), Vere Smyth (Trwmped) a Fiona Gannon (piano ac organ. Tocyn yn £5 a'r elw i elusennau Alzheimer's ac Apêl feddygol Bhopal. Darperir lluniaeth ysgafn.

30 GORFFENAF: BWS I'R EISTEDDFOD

Taith wedi'i threfnu gan Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni. Tocynnau'n £10. Am fwy o fanylion, ffoniwch Glynis ar 07870 623839.

3 AWST: BWS I'R EISTEDDFOD

Taith wedi'i threfnu gan Menter Iaith Abertawe a Tŷ Tawe i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni. Am fwy o fanylion, ffoniwch Beth Owen ar 01792 456853.

8-10 AWST: YSGOL FFILM YN NHŶ TAWE

Tridiau o weithdy cynhyrchu ffilmiau ar gyfer plant rhwng 10 a 12 oed i'w gynnal ar draeth Abertawe ac yn Nhŷ Tawe. I archebu lle, ebostiwch eleri@menterabertawe.cymru neu ffoniwch 01792 460906.

CROESO I BAWB. POB BORE DYDD MAWRTH: GRŴP TI A FI
Cynhelir yn Neuadd y Nant, Clydach rhwng 9 – 11y.b.

POB BORE MERCHER: CYLCH CANU YSGOL Y CRIBARTH
Grŵp i rieni a phlant bach gyda chaneuon a straeon a chrefftau

rhwng 8.50 a 10.15y.b. yn Ysgol y Cribarth, Abercraf. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Siân ym Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar 01639 763819 neu trwy ifanc@micnpt.org

POB DYDD IAU: SIOP SIARAD I DDYSGWYR

Yn y Mond, Clydach rhwng 10y.b. a 11.30yb. Am fwy o fanylion ffoniwch Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar ar 01639 763819.

POB NOS FAWRTH: TWRW TAWE

Cyfle gwych i bobl ifanc ganu, perfformio a chymdeithasu trwy'r Gymraeg. Mae pobl ifanc blynyddoedd 4 i 9 yn cyfarfod rhwng 18.30y.h. a 20.00y.h. tra bod pobl ifanc Blwyddyn 10 ac uwch yn cwrdd rhwng 8 a 10 yr hwyr yn Ffestri Tabernacl, Treforys. Ffoniwch 01792 460906 am fwy o fanylion.

Croeso i chi anfon manylion eich digwyddiadau at y *Llais* er mwyn iddynt gael eu rhestru yma a chael sylw eich cyddarllenwyr. Cysyllter â Gwenno Ffrancon ar 01792 842062 neu gwenno_ffrancon@hotmail.com

CYNGERDD

Sadwrn, Gorffennaf 23 am 6.30

Olwen Turchetta - llais

Vere Smyth - trwmped

Fiona Gannon - piano ac organ.

*Elw i Gymdeithas Alzheimer's
ac Apêl Feddygol Bhopal.*